

Iechyd defaid

Cael y gorau o'ch diadell
trwy wella iechyd y defaid



hybucig.cymru






Ynglŷn â'r prosiect

Cynhyrchwyd y cyhoeddiad hwn fel rhan o'r Rhaglen Datblygu Cig Coch (RMDP) sydd o dan ofal Hybu Cig Cymru (HCC), gyda chefnogaeth Cymunedau Wledig Llywodraeth Cymru- Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, sydd wedi'i ariannu gan Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

Mae'r rhaglen yn cwmpasu tri phrosiect pwysig: Stoc+, prosiect cynllunio iechyd anifeiliaid, Cynllun Hyrddod Mynydd, prosiect gwelliant genetig a phrosiect Ansawdd Cig Oen Cymru, prosiect ansawdd bwyta.

Nod y rhaglen i'w sicrhau bod sector cig coch Cymru mor wydn, cynaliadwy a phroffidiol â phosib mewn marchnad fyd-eang gynyddol gystadleuol.




Cynnwys

Rhagair	4
Cynllun iechyd diadell	5
Cyflwyniad	5
Datblygu'r cynllun	6
Camau allweddol ar gyfer llunio	7
Bioggiogelwch y ddiadell	8
Cynllunio er mwyn cael defaid iach	10
Clefydau clostridiol	10
Orff	10
Niwmonia - Pasteurelosis	11
Llyngyr main parasitig	12
Llyngyr yr iau	13
Cocsidiosis	14
Parasitiaid allanol	15
Mastitis	18
Clefydau detabolig	19
Clefyd y crafu	20
Clefydau 'mynydd rhew'	21
Pam mae'n bwysig rhoi sylw i gloffni?	26
Defaid cloff - adnabod y gwahanol achosion	27
Defaid cloff - triniaeth	29
Defaid cloff - atal	29
Camau allweddol ar gyfer rheoli cloffni	30
Erthylu mewn defaid	31
Erthylu ensöotig (EAE)	32
Tocsoplasmosis	33
Campylobacteriosis	33
Camau allweddol ar gyfer rheoli erthyliadau	33
Crynodeb	34

Hybu Cig Cymru | Meat Promotion Wales
Tŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth SY23 3FF
Ffôn: 01970 625050
Ebost: info@hybucig.cymru
Wefan: hybucig.cymru
[f facebook.com/HybuCigCymru](https://www.facebook.com/HybuCigCymru)
[t twitter.com/HybuCigCymru](https://twitter.com/HybuCigCymru)

Ni ellir atgynhyrchu na throsglwyddo unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn mewn unrhyw fodd heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y cwmni. Er y cymerwyd pob gofal rhesymol wrth ei baratoi, ni warentir ei gywirdeb, ac ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw golled neu ddirifod a achosir gan ddiybnyddu ar unrhyw ddatganiad neu anwaith mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn.

Lluniau: Hybu Cig Cymru, Canolfan Wales Veterinary Science, Joseph Angell a APHA



Rhagair

Mae cael y perfformiad gorau o'ch defaid yn hanfodol i gynhyrchwyr masnachol yn ogystal â bridwyr pedigri er mwyn cadw diadell broffidiol. I sicrhau'r perfformiad gorau, mae iechyd a lles y ddiadell yn hollbwysig. Mae cael diadell sy'n cael ei bwydo'n briodol a'i rheoli'n dda, ynghyd â diogelwch da o ran iechyd, yn gamau pwysig tuag at sicrhau proffidioldeb gwell. Nod y llyfryn hwn yw rhoi gwybodaeth a chynghor i gynhyrchwyr ynglŷn â'r prif fygythiadau i iechyd a lles eu diadelloedd. Mae hefyd yn nodi'r rheidrwydd i gael cynllun iechyd effeithiol ar gyfer eich diadell, yn ogystal a phrotocol bioddiogelwch da, a dylau hwnw cael ei ddiweddarau'n rheiolaid gyda'ch milfeddyg.

Cyhoeddwyd y llyfryn Iechyd Defaid gwreiddiol gan HCC yn 2009. Mae'r fersiwn hon, sydd wedi'i diweddarau, yn cynnwys y cyngor diweddaraf sy'n seiliedig ar ymchwil wyddonol. Mae'r erthyglau wedi eu hysgrifennu â phwyslais ymarferol ar adnabod clefyd yn gynnar, ond yn bennaf oll, ar sut i atal clefydau rhag cael eu cyflwyno, ac amodau a fydd yn arwain at berfformiad gwaeth a diffyg proffidioldeb o'r herwydd.

Cynllun iechyd diadell

Cyflwyniad

Mae cynlluniau iechyd diadell yn ddefnyddiol gan eu bod yn galluogi ffermwyr i gynllunio triniaethau rheolaidd yn eu diadell. Maent hefyd yn bwysig ar gyfer pennu targedau a monitro perfformiad ac iechyd y ddiadell.

Yn ddelfrydol, dylid ei baratoi gyda'ch milfeddyg ac mae'n gyfle amhrisiadwy i'r ffermwr a'r milfeddyg cydweithio â'i gilydd. Er gallai cynllun iechyd gyda'ch milfeddyg ymddangos yn gostus, bydd y buddsoddiad hwn, os gweithredir y camau yn y cynllun, fod yn gost-effeithiol iawn.

Cofwch fod rhaglenni iechyd yn rhoi sylw i fwy na dim ond clefydau heintus ac atal y clefydau hynny, maent hefyd yn ffordd o gynllunio a rheoli maeth a rheoli tiroedd pori.

Mae'n wir fod defaid iach yn ddefaid proffidiol. Nod cynlluniau iechyd diadell yw atal clefydau yn ogystal â gwneud y busnes mor broffidiol â phosibl.

Y gofynion sylfaenol ar gyfer cynllun llwyddiannus yw:

- Cofnodion
- Asesiad cryno o broblemau diweddar
- Adolygiad o berfformiad y flwyddyn flaenorol
- Set glir o amcanion cyraeddadwy

Dechrau arni

Gallwch gysylltu â'ch milfeddyg ar unrhyw adeg i greu eich cynllun iechyd, ond ond bydd angen ystyried cael eich cynllun iechyd wedi'i ysgrifennu ymhell cyn y tymor bridio newydd. Bydd union amser y flwyddyn yn dibynnu ar y dyddiad wyna a ddewiswyd. Er ei bod yn well cychwyn cynllun ar ddechrau'r flwyddyn ddefaid, os oes gennych ddigon i'w drafod/cynllunio gyda'ch milfeddyg tu allan i'r amserlen yna, gallwch ddechrau ar eich cynllun iechyd ar gyfer eich diadell ar unrhyw adeg.

Cofnodion y ddiadell

Mae cofnodion yn allweddol ar gyfer cynllun llwyddiannus, a fydd yn cynyddu proffidioldeb y ddiadell o flwyddyn i flwyddyn. Nid oes raid i'r rhain fod yn gymhleth na chymryd llawer o amser. Y gofynion sylfaenol yw:

- Nifer yr ŵyn a ragwelir adeg sganio a'r ŵyn a werthwyd neu cadwyd yn pen draw
- Mamogiaid hesb o adeg sganio i adeg wyna
- Colledion ŵyn adeg eu geni ac yn ystod y saith diwrnod nesaf, a cholledion o saith diwrnod oed tan ddiwedd y cyfnod gwerthu

Er bod wyna yn gyfnod prysur, mae llyfr nodiadau a phensel i gofnodi colledion yn amhrisiadwy er mwyn gwella perfformiad adeg wyna yn y dyfodol.



Datblygu'r cynllun

Nid oes raid i gynllun iechyd y ddiadell fod yn ddogfen faith. Mae rhai o'r goreuon yn seiliedig ar system ddyddiadur lle caiff y pethau y bwriedir eu gwneud eu cofnodi mewn pensel a'u ticio ar ôl eu cwblhau.

Trafodwch reolaeth gyffredinol gyda'ch milfeddyg, yn ogystal â meddyginiaeth ataliol a defnydd o frechlynnau. Mae'r pynciau a ganlyn yn enghreifftiau o'r hyn y dylid ei gynnwys yn eich cynllun iechyd.

Cyn hwrdda

Hyreddod

- Ffrwythlondeb (trafodwch a fyddai'n syniad cynnal archwiliad ffrwythlondeb gyda'ch milfeddyg a/neu edrychwch ar gofnodion y flwyddyn ddiwethaf os mai dyna'r unig hwrdd a ddefnyddiwyd gyda grŵp o famogiaid)
- Sgôr cyflwr y corff
- Statws elfennau hybrin
- Cyflwr y dannedd, y cymalau a'r traed
- Beth am ddefnyddio radl?
- Y gymhareb mamog:hwrdd

Mamogiaid

- Archwiliad olaf o'u dannedd, eu porsiau a'u cegau, os oes amheuaeth am unrhyw agwedd, dylech eu gwaredu
- Sgôr cyflwr a statws elfennau hybrin – oes angen porthiant atodol neu elfennau hybrin ychwanegol?
- Brechu rhag erthyly. Os penderfynir bod angen gwneud hyn, rhaid cwblhau'r gwaith oleia 4 wythnos (brechlyn erthyly ensöotig) neu oleia 3 wythnos (brechlyn erthyliadau tocsoplasma) cyn troi'r hyreddod at y mamogiaid
- Penderfynu sawl cylchred a ganiateir i'r hyreddod. Mae cyfnod wyna byr yn fanteisiol i les y ddiadell ac i'r bugail



Ar ôl hwrdda

Tynnu'r hyreddod

- Ar ôl hwrdda, dylid cadw'r hyreddod mewn cyflwr da er mwyn lleihau costau amnewid yn y dyfodol
- Cofiwch frechu'r hyreddod pan fydd y mamogiaid yn cael eu brechiad nhw cyn wyna

Mamogiaid yn nhrydydd mis beichiogrwydd:

- Sganio er mwyn penderfynu sut i grwpio'r mamogiaid a'u bwydo
- Edrych ar sgôr cyflwr y corff a statws elfennau hybrin canlyniadau blaenorol

Yn y rhan fwyaf o ddiadelloedd yng Nghymru, bydd angen dosio rhag llyngyr yr iau yn ystod yr hydref a'r gaeaf, ond bydd nifer y triniaethau, a phryd y bydd angen rhoi'r triniaethau hynny, yn dibynnu ar risg (hinsawdd, hanes y fferm a thir pori). Dylech holi eich milfeddyg er mwyn cael cyngor cywir ar strategaethau priodol.

Cyn wyna

- Penderfynu ar borthiant atodol
- Argymhellir dadansoddi porthiant cartref
- Sgorio cyflwr y mamogiaid yn rheolaidd
- Addasu'r bwydo yn ôl grwpiau naill ai yn ôl oedran, faint o ŵyn mae'r famog yn eu cario, neu, yn ddelfrydol, sgôr cyflwr
- Brechu - dylai brechiad atgyfnerthol rhag clefydau clostridiol fod yn orfodol cyn wyna, a dylid asesu risg y bygythiad o Basteurela a defnyddio brechlynnau priodol
- Dylid cwblhau'r gwaith o frechu rhag orff cyn wyna (os defnyddir brechlyn) o leiaf saith wythnos cyn dechrau wyna ac o leiaf saith wythnos cyn rhoi defaid dan do
- Mewn diadelloedd mwy, dylid gwneud trefniadau cynnar i gael cymorth adeg wyna
- Glanhau a diheintio'r sied wyna
- Gwneud yn siŵr bod digon o wellt o dan yr anifeiliaid ar gyfer y tymor wyna
- Prynu pethau sy'n angenrheidiol ar gyfer wyna fel chwistrell bogail
- Tocio mamogiaid yn ôl yr angen
- Asesu faint o le sydd ei angen ar gyfer bwyd a phorthi
- Creu corlannau unigol ar gyfer wyna
- Diwygio'r polisi ar gyfer cadw ar wahân, a'r ddarpariaeth ar gyfer hynny



Wyna

- Penderfynu ar bolisi ysbaddu a thocio cynffonnau
- Asesu'r angen am golostrwm ychwanegol
- Storio/rhewi colostrwm
- Cofnodi unrhyw damogiaid sydd â mastitis neu sydd ddim yn cynhyrchu llawer o laeth
- Dilyn trefniadau rheolaidd fel trin bogeiliau
- Cofnodi unrhyw famogiaid sydd wedi cael trafferthion wrth wyna
- Os ydych yn wyna dan do, dylid troi niferoedd bychain o famogiaid allan i badogau cysgodol er mwyn lleihau'r risg o gam-faethu
- Os yw'n briodol, brechu ŵyn rhag orff
- Cofnodi marwolaethau ac erthyladau

Yn union ar ôl wyna

- Dylid cadw mamogiaid sydd wedi erthylu a mamogiaid hesb ar wahân
- Gofynwch am gyngor o'ch milfeddyg ynglŷn â thrin mamogiad am llyngyr. Efallai bydd angen trin mamogiaid ifanc a thennau cyn adeg wyna, ac os yw'r Cyfrifau Wya Faecal (FEC) yn uchel.
- Ystyried triniaeth llyngyr yr iau i drin yn erbyn llyngyr sy'n oedolion. Gall y driainaeth yma cael ei roi yn y gwanwyn neu ddechrau haf, gall pob dafad dderbyn triniaeth
- Cynllunio eich camau i geisio atal *Nematodirus battus*, i leihau risg, porwch famogiaid a ŵyn ar gaeau oedd heb eu pori gan ŵyn y flwyddyn cynt (2 flynedd yn ddelfrydol)
- Cynllunio strategaeth rheoli cocsidiosis os oes angen
- Cynllunio pryd rydych chi am dagio'r ŵyn os oes bwriad i gadw llinellau genetig, neu os i chi am recordio pwysau geni'r ŵyn

Ŵyn tair i chwe wythnos oed

- Os yw cocsidiosis yn broblem, dylid ystyried dosio ŵyn cyn y cyfnod risg, fel arfer pan fydd yr ŵyn rhwng 4 ac 8 wythnos oed

Ŵyn chwech i wyth wythnos oed

- Dyma pryd mae angen rhoi'r ddos gyntaf o frechlyn clostridiol gyda neu heb gydran Pasteurela i ŵyn; bydd yr olaf yn dibynnu ar asesiad risg
- Ystyried risg clefyd oherwydd *Nematodirus battus* a rhoi triniaeth os oes angen, gan gofio nad oes unrhyw driniaeth barhaus rhag y parasit hwn

Diwedd y gwanwyn - haf

- Mae angen mynd i'r afael â chloffni a rheoli llyngyr a pharasitiaid
- Mae angen cymryd camau i atal pryfedu
- Adolygu'r polisi amnewid a phenderfynu ynglŷn â'r niferoedd sydd eu hangen ac o ble i'w cael

Hanes o broblemau ar y fferm

Dylid ychwanegu unrhyw driniaethau ataliol penodol sydd eu hangen ar sail problemau rydych wedi'u cael yn y gorffennol, fel ychwanegu elfennau hybrin mewn diadelloedd sy'n dioddef o bwd y cyhyrau neu ddiffyg cobalt a gadarnhawyd.

Mae'r uchod yn amlinellid bras o'r pynciau y mae angen eu trafod wrth lunio cynllun iechyd ar gyfer eich diadell. Mae angen cynllun penodol ar gyfer pob diadell unigol er mwyn caniatáu ar gyfer amrywiadau o ran rheolaeth, tir, statws organig, clefydau yn y ddiadell ac amcanion bridio.

Rhaid diweddar'u cynllun bob blwyddyn o leiaf er mwyn rhoi ystyriaeth i fygythiadau a nodwyd o ran clefydau yn ystod y deuddeng mis blaenorol.

Camau allweddol ar gyfer llunio cynllun iechyd diadell

Mae cynlluniau iechyd diadell yn gallu cael - a wir yn cael - effaith enfawr ar broffidoldeb diadelloedd, ac yn gwella lles y defaid.

- Profwyd bod cynlluniau iechyd diadell yn gwella proffidoldeb
- Mae'n ddogfen fyw y mae angen ei hadolygu'n rheolaidd
- Rhaid ei seilio ar ofynion unigol pob diadell
- Rhaid iddo ymdrin â rheoli tir pori, clefydau a maeth

Bioddiogelwch y ddiadell

Mae cadw clefydau allan o ddiadell yn hanfodol er mwyn cynnal a gwella ei phroffidioldeb.

Mewn sefyllfa diadell gaeedig, mae ffensio er mwyn atal eich defaid chi a rhai eich cymdogion rhag crwydro i dir eich gilydd yn bwysig. Yn ddelfrydol, dylid rhoi ffensys dwbl lle mae tir ffermwyr defaid yn ffinio. Dylid rhoi cloeon ar glwydi allanol er mwyn atal lladrad, a hefyd er mwyn atal dieithriaid caredig rhag dod o hyd i ddefaid cymydog ar y ffordd a'u cymysgu â'ch defaid chi.

Ar ddarnau o dir mynydd agored a thir comin, gall fod yn anodd rheoli statws iechyd y diadelloedd sy'n pori yno, ac mae angen cydweithrediad da rhwng y porwyr.

Daw'r risg fwyaf i'r ddiadell o anifeiliaid bridio - mamogiaid a hyrddod - sy'n cael eu prynu'n breifat neu mewn marchnad er mwyn bridio a chadw.

Gallai'r anifeiliaid gorau eu golwg fod yn cario clefyd nad yw'n amlwg adeg eu prynu, ond sy'n ymddangos yn y diwrnodau a'r wythnosau ar ôl iddynt ymuno â'r ddiadell newydd. Gall Clefydau Mynydd Rhew gymeryd blynyddoed i ymddangos.

Mae enghreifftiau costus iawn o glefydau sy'n gallu cael eu cyflwyno i ddiadell fel hyn yn cynnwys:

- Y clafr
- Llyngyr yr iau a llyngyr main ymwrthol
- Clwy'r traed
- Dermatitis carnol heintus mewn defaid (CODD)
- Erthylu ensöotig

Yn ogystal, mae "clefydau mynydd iâ" fel adenocarcinoma yr ysgyfaint mewn defaid (OPA/ Jaagsiekte), Maedi Visna (MV) a chlefyd Johnne's yn bresennol mewn diadelloedd yng Nghymru ac maent yn gymhleth i'w rheoli.



Rhaid cadw unrhyw ddefaid sy'n cyrraedd y fferm, boed yn hwrdd neu'n grŵp o ddefaid, mewn cwarantîn am o leiaf 21 diwrnod. Bydd arferion cwarantîn da yn helpu i atal llawer o'r clefydau hyn rhag cyrraedd eich diadell chi.

- 1 Gall unrhyw ddefaid sy'n cyrraedd y fferm fod yn cario parasitiaid mewnlol (llyngyr) ymwrthol sy'n ymwrthol i un neu ragor o'r triniaethau cyffredin. Nod triniaeth gwarantîn yw cael gwared ar llyngyr ymwrthol trwy ddefnyddio'r triniaethau mwyaf effeithiol sy'n annhebygol o beri ymwrthedd. Mae mathau newydd o foddion gwrthlyngyrol ar gael erbyn hyn, ond mae'n syniad da gofyn am gyngor a chynnwys strategaethau cwarantîn yng nghynllun iechyd y ddiadell. Mae manylion ar gael hefyd ar wefan SCOPS - www.scops.org.uk.
- 2 Ar ôl rhoi'r driniaeth rheoli llyngyr i'r defaid, dylid eu cadw oddi ar laswellt am 24 i 48 awr, ac yna'u troi allan ar borfa a fydd yn cynnwys llyngyr a fydd yn gwanhau unrhyw wyau sydd wedi goroesi sy'n cael eu pasio gan y defaid a ddaeth i mewn.
- 3 Gall defaid sy'n cyrraedd daliad o ba ffynhonnell bynnag fod wedi'u heintio â gwiddon y clafr – dylech asesu'r risg. Os yw'r risg yn uchel, dipiwch y defaid â dip OP (ond nid o fewn 14 diwrnod i roi lefamisol) neu os ydych chi'n rhoi pigiadau mocsidectin, mae modd eu rhoi yn ddilyniannol fel rhan o'r driniaeth rheoli llyngyr mewn cyfnod cwarantîn. Beth am ystyried defnyddio'r prawf ELISA i weld a yw grŵp o anifeiliaid wedi dod i gysylltiad â'r haint ac a oes angen triniaeth arnynt (gweler www.scops.org.uk).
- 4 Gofynnwch am gyngor ynghylch gweithdrefnau cwarantîn ar gyfer llyngyr yr iau ac ystyriwch y posibilrwydd o llyngyr yr iau sy'n ymwrthol i llyngyrleiddiaid. Hefyd, bydd triniaeth yn dibynnu ar y sefyllfa o ran llyngyr yr iau ar eich fferm chi.
- 5 Er eu bod yn edrych yn holliach adeg eu prynu, gall defaid gario'r bacteria sy'n achosi clwy'r traed a Dermatitis Carnol Heintus mewn Defaid (CODD). Bydd defnyddio baddon traed sy'n cynnwys 2.5-3% fformalin neu 10% sylffad sinc yn lleihau'r bacteria sy'n achosi heintiad ond ni fydd yn cael gwared ar y bacteria o draed heintiedig. Felly, dylid ceisio archwilio traed pob anifail os oes modd. Dewis arall yw defnyddio gwrthfotigau ar gyfer bacteria penodol, yn unol â chyngor eich milfeddyg ar gyfer anifeiliaid sydd wedi eu haentio - gallai gwrthfotigau gwahanol gael eu rhagnodi ar gyfer clwy'r traed o'i gymharu â CODD.

- 6 Gall erthylu ensöotig (EAE) ddod i'r ddiadell gyda mamogiaid sy'n gludwyr cudd, a hefyd gan famogiaid sydd wedi erthylu o'r blaen oherwydd EAE. Bydd mamogiaid sy'n gludwyr cudd yn erthylu yn ystod y cyfnod wyna nesaf; efallai y bydd mamogiaid a gafodd eu heintio o'r blaen yn wyna heb broblemau, ond eto i gyd yn ymledu heintiad yn y brych a'r rhedlifau. Bydd brechu stoc sy'n dod i mewn yn lleihau heintiad gan famogiaid sy'n gludwyr cudd ond ni fydd yn atal yr haint rhag ymledu.
- 7 Edrychwch yn ofalus am unrhyw chwarennau chwyddedig o amgylch y pen neu'r gwddf a allai fod wedi'u hachosi gan lymffadenitis crawnllyd (CLA). Gallai straen mewn arwerthiant arwain at arwyddion clinigol o orff hefyd. Felly, cadwch lygad agos ar yr anifeiliaid yn ystod y cyfnod o 21 diwrnod mewn cwarantîn.
- 8 Os bydd unrhyw anifeiliaid yn edrych yn sâl, neu'n colli graen yn ystod y cyfnod cwarantîn, dylid trefnu i filfeddyg eu harchwilio ac i brofi am glefydau, e.e. Maedi Visna, Clefyd y Gororau, Clefyd Johnes, CLA a Llyngyr yr Iau.

Mae diogelwch y ddiadell yn rhan annatod o gynlluniau iechyd diadell a rhaid cynnwys yr amrywiol ddewisiadau a amlinellir uchod yn y cynllun.

Cofiwch nad defaid sy'n cyrraedd y fferm yw'r unig fgythiad i ddiogelwch y ddiadell. Gall gwiddon y clafr fyw oddi ar yr anifail lletyol am fwy nag 16 diwrnod. Rhaid i unrhyw un sy'n dod i gysylltiad â defaid heintiedig (cneifwyr, contractwyr eraill, milfeddygon) ddiheintio eu dillad amddiffynnol a golchi croen heb ei orchuddio â dŵr (cyn boethed ag y gellir ei oddef) cyn gadael y fferm.

Argymhellir hylendid llym a diheintio cerbydau a chyfarpar, yn enwedig cyfarpar cneifio, er mwyn gwneud yn siŵr nad yw heintiadau fel CLA yn cael eu cyflwyno.

Os ydych chi'n defnyddio unrhyw frechlynnau eraill yn eich diadell, mynnwch air â'ch milfeddyg i weld a yw'n amser priodol i'w rhoi i'r anifeiliaid sy'n cyrraedd y fferm, fel bod gan yr holl ddefaid yr un statws brechu.

Cynllunio er mwyn cael defaid iach

Clefydau clostridiol

Mae clefydau clostridiol yn angheuol.

Mae deg clefyd clostridiol sy'n gallu effeithio ar ddefaid. Y rhai mwyaf cyffredin yng Nghymru yw pydredd arenol, dysenteri ŵyn, a chlefyd du'r afu. Mae'r saith arall yn fwy achlysurol ond yn lladd nifer sylweddol o ddefaid bob blwyddyn.

Gall bacteria clostridiol naill ai fodoli mewn niferoedd bach yng ngwahanol organau'r ddafad neu ffurfio sborau sy'n goroesi yn y pridd am lawer blwyddyn. Mae ffactorau sbarduno, sy'n amrywio o rywogaeth i rywogaeth, yn achosi i'r bacteria luosogi'n gyflym.

Pan fydd hyn yn digwydd, rhyddheir tocsinau pwerus sy'n dinistrio organau mewnol y ddafad mewn dim. Marwolaeth gyflym yw'r canlyniad.

Erbyn i'r symptomau ddod i'r amlwg, bydd gormod o ddifrod wedi'i wneud, ac er gwaethaf unrhyw driniaeth bydd marwolaeth yn anochel.

Drwy lwc, mae brechlynnau effeithiol iawn ar gael i atal defaid rhag marw o haint clostridiol, ond mae angen defnyddio'r brechlynnau hyn yn gywir i gael amddiffyniad da.

Mae angen dau bigiad rhwng pedair wythnos a chwe wythnos ar wahân fel cwrs cychwynnol. Yna bydd angen rhoi brechlyn atgyfnerthu blynyddol, cyn wyna fel arfer. Bydd y famog wedyn yn trosglwyddo gwrthgyrff i'w hŵyn trwy'r colostrwm, a thrwy hynny'n rhoi amddiffyniad i'r ŵyn am gyfnod byr ar ddechrau eu bywydau.

Dylai ŵyn benyw sy'n cael eu cadw ar gyfer bridio, ac a fydd yn cael hwrdd yn hesbinod, gael eu cwrs cyntaf o ddau bigiad cyn cael eu diddyfnu. Wedyn dylid eu cynnwys gyda gweddill y mamogiaid i dderbyn eu pigiadau atgyfnerthu blynyddol. Yn aml, bydd hesbinod yn cael eu diystyru - gan beidio â chael eu pigiad atgyfnerthu blynyddol cyntaf - ac o'r herwydd yn agored i heintiad.

Mae'n bosibl y bydd angen trin ŵyn, i'w lladd rhag clefydau clostridiol â dwy ddos, gyda'r ail ddos yn cael ei rhoi 4-6 wythnos ar ôl y ddos gyntaf.

Cofiwch gynnwys hyrddod ac ŵyn gwryw yn yr holl raglenni brechu.

Orff


Mae orff yn enigma: mae'n achosi problemau difrifol ar rai ffermydd ond nid ar eraill.

Achosir orff gan firws parapocs. Sgriffiad bach, bach sydd ei angen arno i heintio'r meinwe yn union o dan y croen. Gwelir y clefyd mewn ŵyn ifanc iawn, mewn ŵyn wedi'u diddyfnu sy'n pori, mewn mamogiaid ac ar dethi mamogiaid. Yn aml iawn, bydd y briwiau yn cael haint eilaidd gyda bacteria staffylococal. Bydd rhai ffermydd yn cael achosion o orff ond yn gwneud dim byd, ac nid yw'r haint yn ailymddangos, ond bydd ffermydd eraill yn cael problemau flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Mae brechlyn byw a ddatblygwyd o rywogaethau gwan o'r firws ar gael. Y nod yw rhoi dos ysgafn o'r clefyd i'r anifail er mwyn iddo ddatblygu ymwrthedd. Os nad oes orff ar eich fferm, peidiwch â defnyddio'r brechlyn hwn.

Gan ddibynnu ar ba ddsbarth o ddefaid sy'n dioddef, mae angen datblygu amserlenni brechu priodol.

- Ni ddylid brechu mamogiaid yn hwyrach na saith wythnos cyn wyna neu eu rhoi o dan do
- Mae modd brechu ŵyn o'r diwrnod cyntaf un
- Dylid brechu mamogiaid ac ŵyn; nid oes unrhyw amddiffyniad mewn colostrwm
- Dylid rhoi'r brechlyn o dan goes flaen yr anifail, ac nid yng nghesail y forddwyd (groin) oherwydd gall yr oen lyfu'r man hwnnw a heintio'i geg



Orff

Dyma ffactorau eraill i feddwl amdanynt wrth reoli orff:

- Gellir defnyddio gwrthfotigau i reoli heintiau bacterol eilaidd
- Gall y firws oroesi am flwyddyn a mwy mewn crachod sydd wedi cwmpo mewn mannau sych, ond ddim am gymaint o amser mewn mannau gwlyb. Felly, os cafwyd achosion mewn defaid dan do, dylid golchi'r sied a'r holl gyfarpar yn drylwyr â digon o ddŵr a diheintydd
- Mae porfeydd sy'n llawn ysgall neu eithin yn berygl gwirioneddol am eu bod yn niweidio'r gwefusau ac yn rhoi mynediad i'r firws - felly dylai rheoli chwyn fod yn rhan o gynllun rheoli eich fferm

Mae orff yn gymaint o enigma, mae'n bwysig i chi gysylltu â'ch milfeddyg ynglŷn â'r ffordd orau o'i reoli yn eich sefyllfa chi.

Niwmonia - Pasteurelosis

Mae pasteurelosis yn achosi niwmonia mewn defaid llawn-dwaf ac ŵyn. Gall hefyd achosi septisemia, yn enwedig yn yr hydref mewn ŵyn wedi'u diddyfnu sy'n pesgi.

Mae defaid yn gallu cario bacteriwm *Pasteurela* yn y gwddf a'r trwyn, hyd yn oed pan nad ydynt yn dangos arwyddion o'r clefyd. Yn ddiweddar, newidiwyd enwau'r bacteria. Erbyn hyn, enw'r rhai sy'n achosi niwmonia a septisemia mewn ŵyn ifanc yw rhywogaeth *Mannheimia*, fel arfer *Mannheimia haemolytica*, ac enw'r rhai sy'n achosi septisemia mewn ŵyn sy'n tyfu yw *Bibersteinia trehalosi*.

Gall y clefyd ymddangos oherwydd straen sy'n gysylltiedig â rheoli neu straen amgylcheddol - er enghraifft dipio, symud a chymysgu grwpiau o ddefaid neu newid porfa'n ddisymwth. Ond gall pasteurelosis achosi marwolaeth pan fydd cyfryngau niwmonig eraill yn bresennol hefyd, er enghraifft *Mycoplasma spp*, Adenocarcinoma yr Ysgyfaint mewn Defaid neu'r firws parainflwensa. Yn yr achosion hynny, caiff yr ysgyfaint ei ddifrodi a bydd y bacteria *Pasteurela* sydd yn y tonsiliau yn heintio ar bob cyfle ac yn symud i lawr i'r ysgyfaint i achosi niwmonia anghueol. Mae clefydau eraill fel llyngyr neu lyngyr yr iau yn gallu cynyddu'r risg o niwmonia *Pasteurela* hefyd.

Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng pasteurelosis cynradd a chlefyd y mae cyfryngau eraill hefyd yn cyfrannu ato.

Mae brechlynnau ar gael rhag *Pasteurela* ac maent yn ffordd effeithlon o amddiffyn rhag heintiadau cynradd; efallai na fyddant mor effeithiol wrth ddelio â chlefydau eilaidd.

Mae'r brechlynnau, fel y rhai ar gyfer clefydau clostridiol, yn anweithredol, ac mae angen dwy ddsos i sefydlu imiwnedd. Efallai na fydd *Pasteurela* yn broblem mewn diadell a gellir seilio penderfyniad ynglŷn â'r angen am frechu ar asesiad risg wrth lunio cynllun iechyd y ddiadell. Bydd pryd y rhoddir y brechlyn yn dibynnu ar y cyfnod risg sy'n debygol a hanes achosion yn y gorffennol.

Caiff yr oen ei ddiogelu i ryw raddau gan y colostrwm, yn yr un modd a gyda chlefydau clostridiol, ond dim ond am y tair i bedair wythnos gyntaf.

Mae brechlynnau cyfun clostridiol/*Pasteurela* ar gael ac wedi ennill eu plwyf erbyn hyn. Dylid cynllunio'u defnydd a thrafod hyn â'ch milfeddyg wrth baratoi cynllun iechyd y ddiadell.



Llyngyr main parasitig

Gall llyngyr main achosi colledion sylweddol o ran cynhyrchiant a marwolaeth hyd yn oed mewn defaid

Canfuwyd ymwrthedd i'r tri grŵp (gwyn, melyn a chllir) gwrthlyngyrol hyn yng Nghymru, sy'n golygu na fydd dosio â rhai cynhyrchion yn effeithiol


Ar ben hyn, mae ymwrthedd i un o'r triniaethau gwrthlyngyrol mwyaf newydd wedi dod i'r amlwg ym Mhrydain Fawr

Dylid dilyn canllawiau SCOPS (Rheolaeth Gynaliadwy o Barasitiaid Mewn Defaid) www.scops.org.uk

Ers bron i 40 mlynedd, rydym wedi gallu rheoli llyngyr yn llwyddiannus iawn gan ddefnyddio triniaethau rheolaidd gyda moddion gwrthlyngyrol effeithiol dros ben. Mae llyngyr yn mynd yn fwyfwy ymwrthol i'r cynhyrchion hyn. Nid yw'n rhy hwyr i'r rhan fwyaf o gynhyrchwyr weithredu ac arafu ymwrthedd gwrthlyngyrol. Mae datblygiad ymwrthedd yn broses raddol a pho gynted y byddwch yn gweithredu yr hwyaf y gallwch gadw gwrthlyngyryddion yn effeithiol.

Mae'r diagram isod yn dangos perfformiad ŵyn yn ôl canran y llyngyr ymwrthol ar y fferm. Pan fyddwn yn profi am ymwrthedd, er enghraifft trwy ddefnyddio Cyfrifiad Wyau Ysgarthol (FEC) ar adeg benodol ar ôl drenio, rydym yn disgwyl i'r gwrthlyngyrydd fod wedi lladd o leiaf 95% o'r llyngyr. Yn y diagram, dyma'r man lle mae'r parthau gwyrdd ac ambr yn cwrdd. Y neges bwysig yw na fydddech mewn gwirionedd, heb brawf, yn sylwi ar waethgiad ym mherfformiad y defaid oni bai fod 80% neu lai o'r llyngyr wedi eu lladd. Erbyn hynny byddwch wedi mynd i'r parth coch ac nid oes modd troi yn ôl o'r fan honno.

Cadwch allan o'r coch!



% Llyngyr ymwrthol

Amcan rheoli llyngyr yn gynaliadwy yw gweithio i gadw eich fferm yn y parth gwyrdd/ambr am gyhyd â phosibl. Yr her yw ceisio cydbwysu prosesau rheoli llyngyr effeithiol a fydd yn sicrhau perfformiad a lles y defaid, ac a fydd, ar yr un pryd, yn golygu llai o ddewis ar gyfer ymwrthedd i'r moddion gwrthlyngyrol ymysg y llyngyr.

Beth allwn ni ei wneud?

Mae angen i chi wybod a oes unrhyw rai o'r llyngyr ar eich fferm wedi datblygu ymwrthedd i unrhyw un o'r grwpiau gwrthlyngyrol. Bydd prawf Faecal Egg Count Reduction Test (FECRT) syml cyn ac ar ôl drenio yn eich rhoi ar ben ffordd. Yna gall eich milfeddyg neu'ch cynghorydd roi cyngor i chi am sut i ddefnyddio'r wybodaeth hon er mwyn i chi fod mewn sefyllfa dda i wneud penderfyniadau ynglŷn â pholisïau rheoli llyngyr yn y dyfodol.

Camau allweddol ar gyfer rheoli parasitiaid mewnol

Peidiwch â defnyddio gwrthlyngyryddion oni bai fod hynny'n angenrheidiol - defnyddiwch FECs i wybod pryd mae angen drenio mamogiaid ac ŵyn.

Defnyddiwch y ddos gywir o'r gwrthlyngyrydd cywir ar yr adeg gywir. (Peidiwch â dyfalu pwysau'r anifeiliaid).

Peidiwch â dosio mamogiaid heb reswm cyn hwrdda - canolbwyntiwch ar famogiaid sy'n denau, heb dyfu'n iawn neu wedi'u heintio.

Gwnewch brofion ymwrthedd i wrthlyngyryddion ar eich fferm.

Peidiwch â dod â llyngyr ymwrthol i'r fferm - defnyddiwch driniaethau cwarantîn.

Efallai y bydd angen dosio mamogiaid ar ôl wyna, ond mae hyn yn gofyn am gynllunio strategol-gofynnwch i'ch milfeddyg am gyngor.

Cadwch llyngyr ymatebol ar y fferm a lleihau'r dewis ar gyfer ymwrthedd i wrthlyngyryddion.

Gwnewch ddefnydd o bori cymysg gyda gwartheg (ond nid geifr).

Symudwch ŵyn wedi eu diddyfnu i fannau â llai o halogiad o ddiwedd Mehefin ymlaen.

Lluniwch strategaeth reoli gyda'ch milfeddyg neu'ch cynghorydd da byw.

I gael rhagor o wybodaeth

Mynnwch air â'ch milfeddyg a chyfeiriwch at gyngor SCOPS sydd ar gael yn www.scops.org.uk.

Llyngyr yr iau

Mae llyngyr yr iau yn achosi colledion economaidd sylweddol yn sgil marwolaeth, diffyg ffyniant ac ieuau yn cael eu condemnio mewn lladd-dai.

Mae llyngyr yr iau yn dueddol o fod yn arwydd o glefydau eraill fel clefyd du'r afu.

Mae nifer yr achosion o lyngyr yr iau wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, ac wedi digwydd yn ardaloedd dwyreiniol sychach y DU y credwyd o'r blaen eu bod yn rhydd rhag llyngyr yr iau. Rhan hanfodol o'r lledu hwn a'r difrifoldeb cynyddol yw hafau gwlyb.

Bydd defaid a gwartheg yn gollwng wyau llyngyr yr iau llawn-dwf i'r borfa drwy eu hysgarthion. Ar y borfa, bydd y llyngyr yn datblygu ac yn chwilio am falwoden y llaid, *Galba truncatula*, lle byddant yn lluosogi, a'r gylchred bywyd yn parhau. Yn y pen draw, bydd nifer uchel mewn ffurf heintiol yn gadael y malwoden, yna mynd i'r borfa ac yn troi'n godennau ar lystyfiant.

Pan gânt eu bwyta, byddant yn teithio i'r iau ac yn cyrraedd eu llawn-dwf. Ni fyddant yn dechrau dodwy wyau nes eu bod tua deng neu ddeuddeng wythnos oed. Bydd y gylchred bywyd fel arfer yn cymryd rhwng pedwar a phum mis.

Mewn defaid, bydd llyngyr yr iau yn achosi tri math o afiechyd, sy'n gorgyffwrdd yn gyson.

Llyngyr yr iau Aciwt

Gwelir llyngyr yr iau aciwt pan fo nifer fawr yn eu ffurf heintiol yn cael eu llyncu ar yr un pryd, gan arwain at ddifrod enfawr i'r iau gyda gwaedlifoedd a difrod i feinwe. Yn yr achosion hyn, yn aml iawn bydd anifeiliaid sydd wedi eu heffeithio'n wael yn marw. Fe'i gwelir fel arfer ddiwedd yr haf neu yn yr hydref, ac mae'n bosibl y bydd y defaid yn dal mewn cyflwr da gan fod y clefyd yn datblygu mor gyflym.

Wrth archwilio gweddill y ddiadell, mae'n bosibl y daw anifeiliaid unigol gwan ac anaemig i'r amlwg.

Llyngyr yr iau Lled Aciwt

Gwelir llyngyr yr iau lled aciwt yn bennaf rhwng diwedd yr hydref a'r gwanwyn. Bydd defaid yn anaemig ac yn colli graen yn gyflym ond yn goroesi am tua dwy neu dair wythnos ar ôl i'r symptomau ymddangos. Bryd hynny bydd yr iau yn cynnwys llyngyr yr iau o oedrannau cymysg, ond nid yn y niferoedd a gysylltir â chlefyd.

Llyngyr yr iau Cronig

Bydd llyngyr yr iau cronig yn digwydd yn y gaeaf a'r gwanwyn ac yn deillio o heintiadau ysgafnach sydd wedi ymgartrefu yn nwythellau'r bustl. Bydd y rhain yn dinistrio celloedd coch y gwaed gan achosi anaemia, yn ogystal â diffyg ffyniant a gwendid yn gyffredinol. Llyngyr yr iau cronig sy'n achosi "gên-botel".

Gan ei bod yn cymryd hyd at ddeuddeng wythnos cyn i wyau llyngyr yr iau ymddangos yn yr ysgarthion, nid yw archwiliadau o'r fath o unrhyw werth ar gyfer diagnosis llyngyr yr iau aciwt neu led aciwt yn yr hydref. Yn anffodus, yr arwydd cyntaf o lyngyr yr iau aciwt yn aml iawn yw marwolaeth sydyn, yn enwedig ar ffermydd nad ydynt wedi cael eu heffeithio gan hyn o'r blaen. Gellir profi samplau gwaed i weld a oes gwrthgorff sy'n dangos bod yr anifail wedi dod i gysylltiad â llyngyr yr iau o'r blaen - gall profion gwaed ddangos a oes haint yn bresennol yn gynt na phroffion sy'n archwilio samplau ysgarthion. Mae hyn yn fwyaf defnyddiol ar gyfer wŷn yn eu tymor pori cyntaf.

Gellir rhoi diagnosis o lyngyr yr iau cronig drwy archwilio'r ysgarthion. Mae presenoldeb un wy yn ddigon i gadarnhau'r haint. Diagnosis clinigol ac archwiliadau post-mortem yw'r ffyrdd mwyaf dibynadwy o gadarnhau llyngyr yr iau aciwt a lled aciwt.

Mae adborth lladd-dai ar ddifrod i'r iau yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth a dylai ffermwyr ofyn am yr adborth hwn pan fyddant yn gwerthu eu hŵn yn syth i ladd-dai. Bydd hyn yn fuddiol i ddeall beth yw lefel yr haint ac a yw'r rhaglenni sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd i'w reoli yn gweithio'n effeithiol.



Llyngyr yr iau ar wahanol gamau - Llun gan WWS

Mae cynlluniau iechyd diadell yn allweddol wrth atal a rheoli achosion o llyngyr yr iau, a dylid eu hadolygu bob blwyddyn wrth i amodau amgylcheddol newid gyda glaw a gwres. Bydd eich milfeddyg yn ymwybodol o sefyllfa llyngyr yr iau yn eich ardal, a hefyd a yw'n symud i fan oedd heb ei heintio o'r blaen. Dosio strategol yw'r ffordd orau o reoli hyn. Mae'n amhosibl cael gwared â'r holl falwod, er bod draenio da a ffensio mannau gwlyb yn help i leihau'r broblem.

Ar gyfer triniaeth ddiwedd yr haf ac yn ystod yr hydref, argymhellir llyngyrleiddiad ar gyfer llyngyr yr iau sydd heb gyrraedd llawn-dwf. Efallai y bydd angen rhoi triniaeth eto yn ystod yr hydref a'r gaeaf, os oes problem ddifrifol. Os bydd angen triniaeth yn y gwanwyn (Ebrill-Mehefin) yna gellir defnyddio llyngyrleiddiad ar gyfer llyngyr llawn-dwf yn unig. Bydd hyn yn ysgafnhau'r pwysau dewis ar y rhai sydd ar gyfer llyngyr ifainc, yn y gobaith y gellir eu defnyddio'n effeithiol yn y dyfodol.

Mae amrywiaeth o llyngyrleiddiaid ar gael ac mae'n bwysig cofio mai dim ond pum cynnyrch cemegol sydd yna, er bod llawer o frandiau gwahanol. Bydd eich milfeddyg yn gallu rhoi cyngor ar ba gynnyrch y dylid ei ddefnyddio a phryd.

Peidiwch â defnyddio cyfuniad o gynhyrchion llyngyr yr iau a llyngyr os nad oes rhaid dilyngyru eich anifeiliaid oherwydd gall y rhain gynyddu ymwrthedd mewn llyngyr main. Defnyddiwch llyngyrleiddiad yn unig. Hefyd, nid oes pwrpas defnyddio cynnyrch sydd ond yn lladd llyngyr yr iau llawn-dwf yn yr hydref; y llyngyr ifainc yw'r gwir fygythiad yr adeg honno o'r flwyddyn.

Fel arfer bydd gwartheg yn dioddef o llyngyr yr iau cronig ac felly maent yn ffynhonnell sy'n gallu halogi'r borfa. Os nad oes llyngyr yr iau ar eich fferm, mae angen triniaeth effeithiol ar gyfer llyngyr yr iau fel rhan o'ch rhaglen gwarantïin er mwyn gwneud yn siŵr nad oes llyngyr yr iau yn cyrraedd eich fferm. Mae hyn yn bwysig hefyd ar gyfer ffermydd sy'n gwybod bod llyngyr yr iau yn bresennol ynddynt er mwyn gwneud yn siŵr nad oes llyngyr yr iau sydd wedi datblygu ymwrthedd i Triclabendasol (TCBZ) yn dod ar y daliad.

Canfuwyd ymwrthedd i gynhyrchion yn cynnwys TCBZ ar rai ffermydd. Dylid cofio hyn os yw'r canlyniadau dosio'n wael. Fodd bynnag, gall diffyg gwelliant ddeillio o ailheintiad o borfa heigiog iawn; felly, mae'n bwysig ymchwilio i driniaethau sy'n ymddangos yn aneffeithiol. Monitrowch lefelau llyngyr yr iau yn eich ŵyn wrth ofyn am adborth os ydych chi'n gwerthu'ch ŵyn yn syth i'r lladd-dy. Bydd hyn yn gymorth i chi ddeall lefel yr heintiad a darganfod a yw'r rhaglenni rheoli cyfredol yn effeithiol.

Coccidiosis

Achosir coccidiosis gan heintiad sy'n cynnwys y protosoan *Eimeria spp* sy'n mynd i mewn i leinin y perfedd. Achosir heintiad wrth i'r ddafad lyncu oocystau (wyau) y parasit. Bydd y rhain yn deor yn y coluddyn bach ac yn goresgyn y celloedd yno ac yn y coluddyn mawr. Yn y celloedd hyn byddant yn newid sawl gwaith cyn cyrraedd y ffurf lle caiff oocystau eu gollwng yn yr ysgarthion.

Gall yr heintiad gwreiddiol gael ei achosi gan oocystau sydd wedi goroesi ar y borfa ers y flwyddyn flaenorol neu gan niferoedd bychain a ollyngwyd gan y famog ac sy'n halogi'r amgylchedd.

Nid yw heintiad ysgafn yn achosi unrhyw niwed parhaol a bydd ŵyn yn datblygu imiwnedd yn fuan iawn ac yn cael eu hamddiffyn rhag unrhyw glefyd pellach.

Mae achosion difrifol o ysgothi ac afiechydon yn gysylltiedig â llyncu niferoedd uchel o oocystau. Ymhlith y ffactorau risg ar gyfer achosion difrifol mae:

- hylendid gwael ac ysgarthion yn halogi pyrsiau mamogiaid
- troi allan trwy'r amser i'r un tir pori sydd wedi ei halogi'n ddrwg o'r blynyddoedd blaenorol neu'r flwyddyn gyfredol os yw'r cyfnod wyna'n hwy na'r bwriad.

Mae'r ŵyn heintiedig yn ysgothi ac mae'n bosibl y gellir gweld darnau bach o waed a llysnafedd. Efallai y bydd bach o waed a mwcws i'w weld yng ngharthion yr ŵyn heintiedig. Gall haint mwynach achosi ŵyn colli cyflwr, niwedio'r perfedd ac arwain at gyfradd twf gwael, a thyfiant gwael. Mae'n bosibl y bydd archwilio'r ysgarthion yn datgelu hyd at filiwn o oocystau i bob gram. Fodd bynnag, gan fod yna naw rhywogaeth a dim ond dwy rywogaeth bathogenaidd, gall niferoedd y rhywogaethau pathogenaidd fod yn is o lawer. Am y rheswm hwn, nid yw cyfrifiadau uchel iawn heb arwyddion clinigol yn ddibynadwy, ac nid ydynt yn golygu bod gennych broblem coccidiosis.

Gall amseriad triniaeth amrywio - gofynnwch i'ch milfeddyg am gyngor.

Dyma fesurau y gellir eu cymryd i leihau cyfraddau heintio:

- **Hylendid da**
- **Cadw mamogiaid yn lân**
- **Gwasgaru calch hydradol o amgylch cafnau yfed a phorthi**
- **Cyfnod wyna byr gyda sawl padog ar gyfer troi allan**
- **Peidio â gadael i ŵyn ifanc ddilyn ŵyn hŷn ar dir pori, oherwydd mae'r ŵyn hŷn yn gwaethygu'r heintiad gan olygu bod yr ŵyn iau dan fygythiad oherwydd niferoedd uchel o oocystau.**

Parasitiaid allanol

Mae pob achos o barasitiaid ar y croen a'r cnu yn gostus o ran cyflwr yr anifail, triniaeth a lles

Rhaid adnabod y parasit(iaid) sy'n bresennol er mwyn eu rheoli'n effeithiol

Mae trogod a gwybed yn trosglwyddo clefydau difrifol eraill.

Mae ectoparasitiaid parhaol (h.y. y rhai sy'n treulio'u cylchred bywyd gyfan ar y ddafad) yn cynnwys y clafr a llau cnoi. Ymhlith y rhai llai cyffredin mae gwiddon y glust, gwiddon mansh eraill, llau sugno a hislau.

Mae ectoparasitiaid lled-barhaol (h.y. y rhai sydd ag o leiaf un cyfnod lle maent yn byw'n annibynnol) yn cynnwys pryfed chwythu a throgod. Ymhlith y rhai llai cyffredin mae pryfed llwyd trwynol.

Diagnosis o Heigiadau Ectoparasitiaid


Os ydych yn amau fod problem ectoparasitiaid yn eich diadell, mae'n bwysig cael milfeddyg i adnabod a chadarnhau'r broblem.

Cofiwch y gall defaid gario mwy nag un ectoparasit (e.e. clafr a llau) ar yr un pryd. Gall nifer o glefydau croen amharasitig hefyd effeithio ar ddefaid.

Y Clafr

Dermatitis alergol sy'n cael ei achosi gan widdon *Psoroptes ovis* yw'r clafr. Daw'r niwed i'r croen yn bennaf o ganlyniad i grafu gan y ddafad ond hefyd trwy drawma a achosir gan geg y gwiddonyn. Mae difrod i'r croen yn golygu bod mwy o serwm yn gollwng, gan arwain at grachod a chroen sy'n tewychu. Mae nifer fach o widdon a briwiau bach iawn - ac ychydig iawn o rwbio a chrafu - yn nodweddiadol o glefyd lled glinigol cynnar. Gall defaid â chlafr lled glinigol ymddangos yn berffaith normal a gellir eu cyflwyno'n ddiymwybod i ddiadell. Mae prawf gwaed newydd yn gallu dod o hyd i bresenoldeb gwiddon y clafr ar ddefaid, sy'n gallu bod yn ddefnyddiol iawn i ganfod achos yn fuan. Y ffordd orau o'i ddefnyddio yw cymryd sampl gwaed nifer o ddefaid mewn grŵp yn hytrach na phrofi un anifail sy'n crafu.

Nodweddir camau diweddarach yr haint gan gynydd cyflym yn nifer y gwiddon a'r crachod. Bydd y rhwbio a'r taflu pen yn mynd yn fwy eithafol; gall y gwllân ddiffannu o rannau o'r corff, a gall clwyfau agored a gwaedlyd ymddangos. Bydd y defaid yn colli graen yn gyflym.



Clafr defaid - Llun gan WWS

Trosglwyddiad

Gellir dal y clafr trwy gyswllt â gwiddon byw mewn cudynnau o wllân neu grachod sydd ynghlwm wrth waliau, mieri a llwyni.

Daw'r rhan fwyaf o achosion o'r clafr:

- O ffermydd cyfagos, trwy ffensys gwael a defaid sydd wedi crwydro neu'n pori ar dir comin
- O gyswllt ddafad-i-ddafad yn y farchnad neu mewn lorïau da byw
- Wrth gyflwyno defaid wedi'u heintio'n lled glinigol i mewn i'r ddiadell.

Llau

Mae llau cnoi (*Bovicola ovis*) yn bryfed bach, gwelw i goch/brown sy'n bwydo ar gennau ar yr epitheliwm, ffibrau gwllân a gweddillion croen. Mae llau sy'n bla yn achosi dermatitis cronig, a nodweddir gan lid, cosi, rhwbio a chnoi'r cnu. Wrth edrych ar yr arwyddion hyn, byddai'n ddigon hawdd meddwl mai'r clafr yw'r broblem. Mae llau cnoi yn ymledu'n araf ymysg defaid. Mae'r rhan fwyaf o achosion, ond nid y cyfan, yn digwydd yn y gaeaf.

Mae'n ymddangos bod difrifoldeb yr heintiad yn dibynnu ar y brîd, hyd y cnu ac iechyd cyffredinol y ddafad, ynghyd â'r hinsawdd o'i hamgylch.

Mae llid a achosir gan heintiad cymedrol yn ddigon i beri i'r ddafad grafu a rhwbio gan achosi niwed i'r cnu a'r croen. Gall ymateb imiwnyddol i *B. ovis* arwain at nam cnepynaidd ar y croen, sy'n effeithio ar werth y croen hwnnw.

Cynron

Pan fydd cynrhon pryfed (*Diptera*) yn mynd i mewn i feinweoedd byw, bydd pryfedu'n digwydd.

Gall pryfedu wneud i'r anifail edrych yn annifyr ac yn anesmwyth ei fyd. Pan fydd y pen-ôl wedi ei bryfedu, gellir gweld defaid yn taro'u traed ôl, yn ysgwyd eu cynffonau'n ddi-baid neu'n cnoi ac yn rhwbio'r pen-ôl. Wrth i friwiau ddatblygu, daw arogl nodweddiadol yn amlwg a bydd y gwllân yn mynd yn glymog ac yn colli ei liw. Heb driniaeth, bydd yr arwynebedd sy'n dioddef yn cynyddu a gwllân yn colli o'r canol, a cheir arwyddion o anghysur parhaol. Mae'n bosibl y gwelir heintiau bacterol eilaidd.

Os bydd y corff yn cael ei bryfedu, caiff y pryfed eu denu at y ddafad gan aroglau "chwysu" mawr a/neu ddeunydd organig yn pydru yn y cnu, fel arfer dros y lwynau, yr ysgwyddau, yr ystlysau, y gwddf, y cefn neu'r abdomen. Yn achos pryfedu'r pen-ôl neu'r gynffon, caiff y pryfed eu denu at gnu sydd wedi ei halogi ag wrin a/neu ysgarthion ac felly anifeiliaid sy'n ysgothi sy'n wynebu'r perygl mwyaf. Mae mynychder pryfedu yn dibynnu ar y tywydd, gyda'r rhan fwyaf o achosion o bryfedu'r corff yn digwydd yn ystod cyfnodau llaith neu dywydd cynnes ar ôl glaw trwm. Mae pryfedu'r pen-ôl yn llai dibynnol ar y tywydd am fod lleithder yr wrin a/neu'r ysgothi yn ddigon i ddenu pryfed.

Gellir lleihau'r risg o bryfedu trwy gneifio, cneifio'r afl neu docio bob 4 i 6 wythnos o ddechrau mis Ebrill ymlaen. Mae yna beth tystiolaeth y gall ymatebolrwydd i bryfedu fod yn etifeddol, ac felly dylid difa mamogiaid a hyrddod magu sy'n pryfedu'n gyson.



Cynron



Trogod - llun gan WWSC

Trogod

Mae trogod yn eu holl ffurfiau gweithredol yn bwydo ar waed defaid. Gall trogod gludo nifer o glefydau pwysig sy'n effeithio ar ddefaid, da byw eraill a phobl, fel:

- Twymyn trogod
- Enceffalitis trogod
- Y breid
- Pyemia ŵyn
- Clefyd Lyme

Oddi ar yr anifail lletyol, mae angen amgylchedd llaith ar drogod i oroesi, a cheir hyn fel arfer wrth fôn llystyfiant trwchus, yn enwedig mewn porfeydd garw, gweundir, rhostir neu goetir.



Trogod - llun gan WWSC

Triniaethau Cemegol

Mae'n bwysig gwybod pa barasit sydd dan sylw cyn penderfynu ar y driniaeth fwyaf effeithiol. Dylid dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr i'r llythyren ar gyfer pob triniaeth rhag ectoparasitiaid.

Gall camddefnyddio triniaeth fod yn aneffeithiol ac yn niweidiol i'r amgylchedd. Dewiswch ar sail ymwrthedd yn yr ectoparasitiaid neu'r llyngyr main (a dibynnu ar y driniaeth). Os ydych yn defnyddio pigiadau neu arllwysyddion, dylid pwysu'r defaid.

Rhaid cael trwydded i ddefnyddio a gwaredu dipiau OP. Dylid graddnodi baddonau dipio'n gywir. Caniatewch i ddefaid sydd wedi eu dipio sefyll yn y lloc draenio am o leiaf 10 munud i ddiferu a dychwelwch y diferion i'r baddon dipio. Peidiwch â dychwelyd defaid newydd eu dipio i'r tir pori arferol. Rhowch nhw mewn cae heb gwrs dŵr naturiol sy'n ffinio â'r man dipio gyda chafn o ddŵr glân am o leiaf 24 awr. Os oes cyrsiau dŵr naturiol yn y cae, ffensiwch nhw fel na all da byw fynd atynt.

Mae llawer o gontractwyr dipio symudol trwyddedig ar gael. Bydd y contractwyr hyn yn meddu ar y trwyddedau angenrheidiol ac yn gallu prynu'r dip a'i waredu.

Camau allweddol ar gyfer rheoli parasitiaid allanol

Rhaid rhoi archwiliad trylwyr i ddefaid sy'n cosi a rhaid cael diagnosis cywir o'r achos.

Gwnewch yn siŵr bod y driniaeth a ddewiswch yn rheoli'r cyflwr dan sylw.

Os cewch hyd i ectoparasitiaid parhaol ar un anifail, dylid ystyried bod y grŵp cyfan wedi ei heintio a dylid trin yr holl anifeiliaid yn y grŵp ar yr un pryd.

Gall un ddafad heb ei thrin ail-heintio'r ddiadell gyfan.

Sicrhewch eich bod yn diogelu'r gweithredwr a'r amgylchedd trwy drafod a defnyddio triniaethau'n ofalus.

Rhowch bolisi cwarantîn ar waith ar gyfer anifeiliaid sy'n cyrraedd y fferm.



Mastitis

Mae mastitis aciwt yn gallu lladd o fewn 24 awr. Gwiriwch am fastitis cronig ar ôl diddychu.

Mae mastitis, neu lid ar y chwarennau llaeth, yn amrywio'n fawr o ddiadell i ddiadell ac o dymor i dymor. Caiff ei achosi gan haint bacterol fel arfer, a gall fod yn glefyd aciwt (yn ymddangos yn sydyn ac yn gwaethygu'n gyflym) neu gronig (hirdymor).

Y ddau brif fath o facteria sy'n achosi mastitis yw *Staphylococcus aureus* a *Mannheimia haemolytica*. Mae'r bacteria hyn yn bresennol fel arfer ar groen mamogiaid, yn y geg, y trwyn a'r wain. Yn ystod y cyfnod wyna, cânt eu trosglwyddo i groen y pwrs ac i flaen y deth wrth i'r wŷn sugno. Bydd briwiau ar y croen neu dethi wedi torri yn caniatáu i'r bacteria fynd i mewn i'r corff, gan gynyddu'r risg o fastitis. Mae *E-coli* yn gallu achosi mastitis hefyd, a bydd hwnnw'n cael ei godi o'r amgylchedd yn aml iawn. Mae hylendid gwael adeg wyna yn gallu gadael i facteria amgylcheddol luosogi, gan gynyddu'r siawns o heintiad. Yn ddelrydol, dylid gwneud yn siŵr bod gan yr anifeiliaid wely glân a bod padogau mwdlyd yn cael eu hosgoi.

Gwelir achosion o fastitis aciwt rhwng 10 niwrnod a thair wythnos ar ôl wyna fel arfer. Bydd y pwrs yn chwyddo a gwres yn dod ohono, gyda secretiadau gwaedlyd, dyfrllyd neu geuledig. Yn aml iawn bydd y famog yn gloff yn ei choesau ôl oherwydd y boen yn ei phwrs, ac yn gwrthod gadael i'r oen sugno. Efallai y bydd y famog yn cilio oddi wrth weddill y ddiadell ac yn stopio bwyta. Heb ei thrin, gall y mastitis wenwyno corff y famog a gall farw o fewn ychydig iawn o amser. Dylid ei thrin gyda phigiadau gwrthfotig a meddyginiaeth wrthlidiol cyn gynted ag y bo modd. Dylech drafod y protocolau ar gyfer trin y famog gyda'ch milfeddyg, a chynnwys y driniaeth yng nghynllun iechyd y ddiadell. Os bydd y famog yn goroesi, mae'n bosibl na fydd ei chyflenwad llaeth yn cael ei adfer ac y bydd yn mynd ymlaen i gael clefyd cronig.

Fel arfer, adeg diddychu neu yn yr hydref wrth archwilio mamogiaid i weld a ydyn nhw'n addas ar gyfer magu y daw mastitis cronig i'r golwg. Yn yr achosion hyn, bydd y gadair yn galed neu'n cynnwys nifer sylweddol o lymphiau caled. Efallai na fydd wŷn y mamogiaid hyn wedi gwneud cystal ag wŷn mamogiaid iach.

Mae nifer o ffactorau risg yn gallu arwain at fastitis. Ni fydd mamogiaid sydd ddim wedi cael digon o frwyd neu sydd mewn cyflwr gwael mor abl i frwydro yn erbyn haint, a bydd ganddynt lai o laeth. Gall hyn

arwain at wŷn llwglyd a gor-sugno, sy'n niweidio'r tethi a'r pwrs. Mae magu dau oen neu ragor yn cynyddu'r risg o fastitis hefyd gan fod niwed i'r tethi a'r pwrs yn fwy tebygol oherwydd lefel y sugno. Os nad oes siâp cystal ar y pwrs, gall hyn gyfrannu at ddatblygiad y clefyd hefyd.

Mae hylendid gwael adeg wyna, fel gwelld budr a gwlyb o dan yr anifeiliaid, a dwysedd stoc uchel, yn cynyddu'r posibilrwydd y bydd y pwrs yn cael ei halogi ac yn ei gwneud yn haws i facteria gael mynediad. Gall dwylo neu gyfarpar heintiedig ledaenu heintiau o un famog i'r llall hefyd, yn enwedig os ydynt yn cyffwrdd â'r pwrs er mwyn gweld faint o laeth sydd ynddo. Mae hylendid da yn y sied wyna yn hanfodol er mwyn lleihau'r risg o heintiau a'u hatal rhag lleadaenu.

Mae mwy o risg i famogiaid hŷn (4 oed a throsodd) gael mastitis gan fod sgôr cyflwr y corff yn debygol o fod yn is ac nad yw siâp y tethi cystal. Gall defaid sy'n dod ag wŷn am y tro cyntaf gael mastitis hefyd, gan eu bod yn aml yn cymryd mwy o amser i fwydo'u hŷn, sy'n cynyddu'r siawns o niwed i'r pwrs a'r tethi. Ceir tystiolaeth hefyd fod rhai bridiau, a rhai teuluoedd o fewn brid, yn fwy tebygol o gael mastitis. Mae'n gwneud synnwyr i beidio â chadw unrhyw wŷn benyw o famog sydd â hanes o fastitis ar gyfer bridio. Awgrymwyd bod cyswllt rhwng datblygiad mastitis a thocio neu gneifio'r afl yn ormodol, gan adael y pwrs yn agored i'r elfennau, ond nid oes prawf gwyddonol o hyn.



Mastitis mamog - Llundain gan APHA

Clefydau metabolig

Clwy'r eira (tocsemia beichiogrwydd)

Gwelir clwy'r eira (sy'n gyfarwydd fel *twin lamb disease* yn Saesneg) mewn mamogiaid tenau, sy'n aml yn famogiaid hŷn ac yn cario mwy nag un oen. Fe'i gwelir hefyd mewn mamogiaid sy'n edrych yn rhy dda, sydd wedi gweld gostyngiad cyflym mewn egni o fwyd. Mae'r clwy'n deillio o ddiffyg egni pan nad yw gostyngiad yn lefel y maeth yn bodloni gofynion y famog yn ystod cyfnodau hwyr beichiogrwydd (pan fo 70% o dwf y ffetws yn digwydd).

Bydd y mamogiaid sy'n dioddef yn ymddangos fel pe baent wedi drysu a byddant yn cadw ar wahân i weddill y ddiadell. Byddant yn ddiegni, heb archwaeth bwyd, a byddant yn colli eu golwg yn y diwedd. Yn aml, bydd triniaeth yn aflwyddiannus a gall yr anifail farw. Dylid rhoi'r famog ar wahân i weddill y defaid a chynnig bwyd blasus a dŵr iddi.

Mae triniaeth â phropylen glycol, pigiad glwcos mewnwythiennol a phigiad glwocorticoid yn llwyddiannus ambell waith os yw'r ddafad yn dal i allu cerdded pan fo'r driniaeth yn dechrau.

Mae angen archwilio'r mamogiaid yn rheolaidd ar gyfer arwyddion o wyna neu erthylu oherwydd efallai y byddant yn rhy wan i fwrw oen heb gymorth.

Twymyn llaeth (Hypocalcaemia)

Achosir twymyn llaeth gan ddiffyg calsiwm yn y gwaed ac mae'n digwydd fel arfer yn ystod cyfnodau hwyr beichiogrwydd a chyfnodau cynnar llaetha pan fo fwyaf o angen calsiwm. Bydd y famog sy'n dioddef yn wan ac yn methu sefyll. Bydd y rwmyn yn rhoi'r gorau i weithio ac yn aml bydd y trwyn yn rhedeg. Heb driniaeth, gall y famog syrthio i goma a marw o fewn 24 awr.

Bydd mamogiaid sy'n dioddef yn ymateb yn dda i driniaeth a ddylai, yn ddelfrydol, fod yn 20-40 ml o hydoddiant 40% o foroglwconad calsiwm yn cael ei roi'n araf yn fewnwythiennol dros 30-60 eiliad. Bydd y famog yn torri gwynt rhwng munud a dwy funud ar ôl y pigiad ac yn aml iawn bydd yn codi'n gyflym ar ei thraed ac yn cerdded i ffwrdd o fewn pum munud. Dewis arall yw rhoi pigiad isgroenol o 60-80 ml o hydoddiant 40% o foroglwconad calsiwm mewn dau neu dri man dros y bilen thorasig y tu ôl i'r ysgwydd; gall gymryd hyd at bedair awr cyn iddi ymateb.

Y ddera (Hypomagnesaemia)

Bydd y ddera neu ddera'r borfa yn digwydd yn y gwanwyn. Mae'n cael ei achosi pan nad oes digon o fagnesiwm yn y porthiant i ddiwallu gofynion yr anifail. Yn aml, caiff ei gysylltu â chyfnod o dywydd oer a gwlyb a lle mae'r anifeiliaid ar borfa fras.

Bydd y ddera yn digwydd mewn mamogiaid yn ystod y mis cyn neu ar ôl wyna, yn enwedig ar ôl wyna. Yn aml, bydd defaid yn dioddef o dwymyn llaeth a/ neu hypoglycemia hefyd, a dylid eu trin ar gyfer y tri chyflwr.

Yn aml iawn, bydd y famog yn marw yn ddirybudd, ond ambell waith bydd yn ymddangos yn aflonydd ac yn cerdded yn ansad. Bydd wedyn yn mynd i orwedd a bydd ei choesau'n symud yn ddigymell ac ewyn yn dod o'i cheg.

Y driniaeth yw pigiad isgroenol o sylffad magnesiwm a phigiad mewnwythiennol o gymysgedd calsiwm/magnesiwm a decstros.

Rheoli clefydau metabolig

Mae'r holl glefydau metabolig a drafodir yma yn gysylltiedig â'r famog feichiog pan mae ar fin wyna neu'r famog sy'n llaetha. Mae'n hollbwysig sgorio cyflwr corff y famog trwy gydol ei beichiogrwydd a gwneud cywiriadau i'w deiet gan ddibynnu ar ei gofynion maethol. Mewn diadelloedd mawr, bydd rhannu mamogiaid yn grwpiau gwahanol ar sail nifer yr ŵyn y mae pob un yn eu cario yn caniatáu iddynt gael y deiet priodol. Unwaith eto, mae cynllunio a bod yn ymwybodol o werth maethol ymborth yn bwysig wrth atal y cyflwr hwn. Dylid trafod mwynau defaid gyda'ch milfeddyg. Gall rhoi gormod o fwynau, neu rhoi mwynau pan nad oes angen, achosi niwed.



Casglu samplau gwaed

Clefyd y crafu

Mae clefyd y crafu yn glefyd angheuol mewn defaid a geifr.

Mae'n glefyd hysbysadwy ac mae'n rhaid rhoi gwybod i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) amdano trwy ffonio 0300 303 8268.

Mae geneteg y ddafad yn dylanwadu ar ddatblygiad clefyd clinigol a gellir bridio defaid ag ymwrthedd clinigol – dylid dewis hyrddod ar gyfer ymwrthedd fan leiaf.

Bydd y rhan fwyaf o achosion o glefyd y crafu yn digwydd mewn defaid rhwng dyflwydd a phum mlwydd oed, a bydd yr anifeiliaid yn dangos cyfuniad o symptomau amhenodol. Dylid ystyried clefyd y crafu mewn unrhyw ddafad neu afr dros 12 mis oed sy'n dangos newidiadau o ran ymddygiad neu nerfusrwydd. Os nad oes diagnosis amlwg arall, rhaid hysbysu Gwasanaethau Maes yr APHA am yr achos er mwyn trefnu ymchwiliad pellach.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cyflwynwyd mesurau i leihau nifer yr achosion o'r clefyd hwn, gan gynnwys cynlluniau Diadelloedd Clefyd y Crafu Gorfodol, a chadw golwg am y clefyd mewn stoc trig ac mewn lladd-dai. Serch hynny, mae achosion yn ymddangos o hyd.

Mae modd rheoli pa mor debygol yw anifail o gael clefyd y crafu yn enetig, a chynnal profion gwaed a dewis anifeiliaid bridio i allu gwrthsefyll y clefyd. Dyma'r sylfaen ar gyfer rheoli clefyd y crafu clasurol. Bydd defnyddio anifeiliaid sydd ag ymwrthedd i glefyd y crafu ar gyfer bridio yn lleihau achosion o'r clefyd, gan arwain at ei ddileu'n llwyr hyd yn oed.



Symptomau

Yn y rhan fwyaf o ddefaid, bydd yr arwyddion clinigol yn datblygu'n raddol dros gyfnod o wythnosau neu hyd yn oed fisoedd, ond mewn rhai amgylchiadau, e.e. straen, gall y cyflwr waethygu'n gyflym.

Gall yr arwyddion clinigol gynnwys:

Llid dwys gyda'r ddafad yn crafu'n ddi-baid, yn rhwbio'i hochrau neu'n brathu'r coesau neu'r traed

Efallai y bydd hi hefyd yn crensiar ei dannedd wrth i rywun rwbio'i chefn yn galed. Bydd golwg ar y gwllân hefyd

Efallai y bydd newid mewn ymddygiad hefyd, er enghraifft, efallai y bydd yr anifail wedi cynhyrfu mwy nag arfer, yn ofnus, yn ymosodol neu'n ddigalon yr olwg, gan lusgo y tu ôl i weddill y ddiadell a llygadrythu.

Gellir gweld newid o ran ystum y corff, er enghraifft, trotian a chodi'r traed yn anarferol o uchel, diffyg cydlynid difrifol, baglu neu fethu sefyll.

Yn nes ymlaen, mae'n bosibl y bydd yr anifail yn colli pwysau'n ddifrifol ac yn marw.

Yr unig ffordd bendant o wybod a yw anifail wedi cael ei heintio ai peidio yw archwilio meinwe'r ymennydd o dan ficroskop ar ôl iddo gael ei ladd neu ar ôl iddo farw.

Clefyd y Crafu Annodweddiadol

Mae achosion o glefyd y crafu annodweddiadol yn dueddol o ddigwydd mewn anifeiliaid dros bum mlwydd oed â genoteipiau sy'n cael eu hystyried yn fwy ymwrthol i glefyd y crafu clasurol. Prin y ceir mwy nag un achos mewn diadell.

Cynllun Monitro Clefyd y Crafu

Mae aelodaeth o'r cynllun hwn yn fodd i berchnogion diadelloedd gydymffurfio â Rheoliadau'r UE sy'n ymdrin ag allforio defaid bridio, geifr, semen neu embryonau i wledydd yr UE a thu hwnt. Yn ogystal â glynw wrth set o reolau, rhaid cynnal post mortem ar stoc trig. I gael rhagor o wybodaeth am y cynllun, cysylltwch â Chynlluniau Iechyd Defaid a Geifr Premiwm SRUC ar 01835 822 456.

Clefydau 'mynydd rhew'

Defnyddir y term hwn i ddisgrifio clefydau sy'n aml yn araf yn datblygu, gyda mwy o anifeiliaid yn cario'r haint na'r rheini sy'n dangos arwyddion ohono. Efallai mai ychydig iawn o ddefaid sy'n dangos arwyddion ond bydd lefelau cynhyrchiant y ddiadell yn waeth yn gyffredinol. Mae pum clefyd o'r fath mewn defaid: Lymffadenitis Crawnlllyd (CLA), Maedi Visna (MV), Clefyd Johnes (OJD), Clefyd y Gororau ac Adenomatosis yr Ysgyfaint mewn Defaid (OPA/Jaagsiekte).

Gall fod yn anodd weithiau canfod y clefydau hyn a'u trin, ond mae'n bwysig bod diadelloedd sy'n ceisio sicrhau'r perfformiad gorau yn ystyried y clefydau hyn yng nghynllun iechyd y ddiadell ac yn meddwl sut i'w hatal rhag cyrraedd y ddiadell.

Lymffadenitis Crawnlllyd (CLA)

Achosir Lymffadenitis Crawnlllyd (CLA) gan *Corynebacterium pseudotuberculosis*. Fel arfer, bydd yn cael mynediad trwy friwiau a chrafiadau, er enghraifft ar ôl cneifo, neu hyrddod yn ymladd, ond mae modd ei anadlu i mewn hefyd. Mae'r cyflwr yn achosi crawniadau yn chwarennau lymff yr anifail, yn aml o amgylch y pen a'r gwddf, ond fe'i gwelir yn yr organau mewnol hefyd, fel yr ysgyfaint.

Yn y DU, bydd CLA i'w weld gan amlaf yn y prif hwrdd a ddefnyddir. Yn y rhan fwyaf o achosion mewn diadelloedd, yr hyrddod yw'r anifeiliaid cyntaf i ddangos y clefyd.

Mewn un ddiadell ym Mhrydain â dros 3,000 o ddefaid, amcangyfrifwyd bod holl golledion y busnes fel canlyniad uniongyrchol i CLA o gwmpas £15,000, gan gynnwys colledion difa, costau brechlynnau, a threuliau milfeddygol cysylltiedig.

Profion

Mae yna brawf gwaed sy'n canfod gwrthgorff i *C. pseudotuberculosis*. Mae gan Gynlluniau Iechyd Defaid a Geifr Premiwm SRUC gynllun sgrinio cyn gwerthu, pan fo anifeiliaid magu'n cael eu sgrinio am dystiolaeth o heintiad cyn eu gwerthu. Bydd y prawf gwaed, a gwahanu neu ddifa anifeiliaid heintiedig, yn helpu i reoli CLA mewn defaid heintiedig.

Brechu

Mewn gwirionedd, nid oes modd trin CLA yn effeithiol mewn defaid oherwydd nid yw defnyddio gwrthfotigau dros gyfnod maith hyd yn oed yn cael gwared ar yr holl organebau heintus o'r corff. Nid oes unrhyw frechlyn trwyddedig ar gael yn y DU ond mae modd cael trwydded arbennig i fewnforio brechlyn o Awstralia.

Rheoli ymlediad

Gwelwyd bod gwahanu stoc ifanc oddi wrth ddefaid hŷn ar ôl eu diddyfnu yn gostwng lefel yr ymlediad ymhlith y grwpiau iau. Yna bydd profion gwaed â chanlyniadau negatiff yn caniatáu i berchnogion diadelloedd heintiedig werthu stoc magu ifanc gan deimlo'n fwy hyderus nad yw CLA yn cael ei drosglwyddo i'r lle nesaf.

- Mae CLA yn glefyd heintus cronig sy'n achosi crawniad yn y nodau lymff a'r organau mewnol
- Mae briwiau sydd gan amlaf yn edrych fel lympiâu allanol yn grawniadau fel arfer yn y nodau lymff
- Ceir colledion trwy ddifa anifeiliaid heintiedig ac am fod peth neu'r cyfan o'r carcass yn cael ei gondemnio
- Gall CLA effeithio ar gyflwr yr anifail, yn ogystal ag ar lefel y llaeth a gynhyrchir ac atgenhedlu
- Mae'n cael ei achosi gan facteria tra heintus sy'n gallu goroesi yn yr amgylchedd am fisoedd lawer
- Mae'n bresennol ledled y DU ac yn dechrau ymddangos erbyn hyn yn y sector masnachol
- Prif gost CLA yng Nghymru yw nad oes modd gwerthu anifeiliaid bridio heintiedig



Maedi Visna

Clefyd firol yw Maedi Visna (MV) a ddaeth i Brydain dros 30 mlynedd yn ôl. Gall defaid o unrhyw oed gael eu heintio, ond am fod yna gyfnod heintus hir, ni welir arwyddion nes bod anifeiliaid dros ddyflwydd oed fel arfer. Nid oes gwellhad na brechlyn ar gael ac mae MV yn angheuol unwaith y mae'r arwyddion clinigol wedi datblygu, er mai dim ond cyfran o'r defaid heintiedig fydd yn datblygu arwyddion (tua 25-30%). Bydd lefelau cynhyrchiant defaid eraill sydd wedi'u heintio yn is o bosibl, a bydd y defaid yn cario'r haint am oes, gan barhau i ledau'r firws.

Gall yr arwyddion clinigol gynnwys:

- Niwmonia
- Parlysu cynyddol
- Nychdod
- Arthritis
- Mastitis cronig

Dangosodd ymchwil ddiweddar fod nifer y diadelloedd heintiedig yn y DU ar gynydd. Mae'r clefyd yn gostus am fod nifer gynyddol o famogiaid yn cael eu difa oherwydd nychdod, iechyd gwael yn gyffredinol, mastitis cronig a lefelau ffrwythlondeb gwael. Hefyd, mae'r ddiadell yn llai cynhyrchiol, gyda llai o wŷn yn cael eu geni, mwy o wŷn yn marw a chyfraddau twf yr wŷn yn wael. Mae'n bosibl y bydd cyfyngiadau o ran allforio'n berthnasol ar gyfer defaid byw a semen o ddiadelloedd sydd wedi profi'n positif am MV.

Mae cynllun achredu gwirfoddol ar gael trwy Gynlluniau Iechyd Defaid a Geifr Premiwm SRUC, sy'n mynnu bod defaid achrededig yn cael eu cadw ar wahân i'r defaid sydd ddim wedi'u hachredu. Gall aelodaeth o'r cynllun hwn ychwanegu gwerth at y stoc bridio sy'n cael eu gwerthu a gall fod yn strategaeth bwysig o safbwynt bioddiogelwch y ddiadell.

Clefyd y Gororau

Mae gan Clefyd y Gororau enwau eraill yn Saesneg, fel *'hairy shaker disease'* neu *'fuzzy lamb disease'*. Achosir y clefyd pan fydd y ffetws yn cael ei heintio yn gynnar yn y cyfnod beichiogrwydd â firws Clefyd y Gororau (BDV), sy'n perthyn yn agos iawn i'r firws ysgothi firol mewn gwartheg (BVD). Os ydych yn cyd-bori gyda gwartheg, rhaid ystyried bod y defaid sydd â Chlefyd y Gororau yn risg. Gall gwartheg sy'n dal Clefyd y Gororau wrth ddefaid ddatblygu clefyd angeuol o'r enw Twymyn Catharral Malaen (MCF).

Pan fydd mamogiaid yn cael eu heintio ar ddechrau eu beichiogrwydd, bydd y firws yn croesi'r brych ac yn meddiannu'r ffetws. Ni fydd y famog yn arddangos unrhyw arwyddion o'r clefyd, ond bydd y ffetws wedi'i heintio a gall farw neu gael ei erthylu, neu fod yn farw-anedig. Bydd rhai ffetysau heintiedig yn cael eu geni'n fyw ac yn ymddangos yn normal, ond byddant yn barhaol heintus ac yn heintio'r ddiadell yn barhaus. Mewn achosion eraill, gall y firws achosi niwed difrifol i'r ymennydd a chael effaith ar dwf y gwlan, gan arwain at wŷn â chôt flewog sy'n simsan ar eu traed, gan egluro'r enw 'hairy shakers'.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw frechlyn ar gael a dylid rhoi pwyslais ar beidio â chaniatáu i'r clefyd gyrraedd eich diadell. Y ffordd fwyaf cyffredin o heintio diadell yw pan fydd anifeiliaid sydd yn barhaol heintus yn cael eu prynu yn yr hydref. Bydd y rhain yn heintio'r ddiadell a daw'r clefyd i'r amlwg yn ystod cyfnod wyna'r flwyddyn ganlynol gyda mwy o famogiaid hesb, erthyladau, wŷn marw-anedig ac wŷn 'hairy shaker'.



Adenomatosis yr Ysgyfaint mewn Defaid (OPA)

Mae hwn yn glefyd angheuol sy'n cael ei achosi gan firws o'r enw Jaagsiekte, sy'n effeithio ar yr ysgyfaint. Mae'r feirws yn cael ei ledaenu o drwyn i drwyn, felly os yw'r diadelloedd wedi'u heintio, ceisiwch osgoi bwydo mewn cafanau ac wyna tu allan i geisio lleihau y risg o ledaenu'r feirws.

Gwelir arwyddion clinigol mewn defaid hŷn (3-4 oed) fel rheol, ond mae'r clefyd yn gallu effeithio ar ddefaid sy'n iau na blwydd oed.

Arwyddion clinigol:

- Nychdod cronig
- Trafferth anadlu
- Marwolaeth sydyn o'r haint Mannheimia eilaidd (Pasteurela yn flaenorol).
- Os oes gan ddiadell lawer o famogiaid hŷn tenau, mae'n bosibl fod yr haint yn cuddio ynddynt. Mae'n rhaid cynnal post mortem i gael diagnosis, ond mae sganio uwchsain i bob golwg yn fuddiol wrth ganfod defaid y mae'r clefyd yn effeithio arnynt.
- Nid oes triniaeth na brechlyn, felly rhaid cael gwared ar ddefaid sydd â'r clefyd o'r ddiadell.



Ysgyfaint heintiedig OPA - Llundiau gan WVSC

Clefyd Johne's mewn defaid

Mae Clefyd Johne's yn cael ei achosi gan facteriwm o'r enw *Mycobacterium avian subspecies paratuberculosis* (MAP) sy'n effeithio ar wartheg hefyd. Caiff MAP ei ryddhau o'r corff mewn ysgarthion, llaeth a cholostwrwm, a gall oroesi am lawer o amser yn yr amgylchedd.

Fel arfer, bydd defaid yn codi'r haint trwy'r llwybr ysgarthion/ceg yn ystod misoedd cyntaf eu bywyd neu o laeth mamogiaid heintiedig.

Mae arwyddion clinigol fel arfer yn cynnwys nychdod mewn defaid 3-4 oed. Bydd rhai defaid yn cael "gên-botel" lle mae hylif yn casglu o dan yr ên.

Gall fod yn dipyn o her profi am y clefyd hwn. Dim ond yn ystod camau olaf y clefyd y bydd profion gwaed i chwilio am wrthgyrff yn dangos ei fod yn bresennol. Gellir profi ysgarthion cyfunol fel rhan o raglen sgrinio i asesu statws y ddiadell.

Nid oes triniaeth effeithiol ar gyfer y clefyd hwn. Mae brechlyn o'r enw Gudair ar gael trwy eich milfeddyg, ond nid yw'n debygol o gael gwared ar y clefyd o'r ddiadell heb ymyriadau llym iawn o ran rheoli.

Mae cynllun achredu gwirfoddol ar gael trwy Gynlluniau Iechyd Defaid a Geifr Premiwm SRUC, sy'n gofyn am sgrinio gwaed, llaeth ac ysgarthion, a chynllun iechyd ar gyfer y fferm sy'n rhoi sylw i reoli Clefyd Johne's.



Firysau cludol

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae ffermwyr wedi dod yn ymwybodol o ddau glefyd firol na welwyd yn y DU cyn hynny, sef firws y tafod glas (BTV) a firws Schmallenberg. Mae'r ddau'n cael eu cludo gan wybed a bydd yr heintio'n digwydd pan fo defaid yn cael eu brathu gan wybed.

Firws y Tafod Glas

Mae firws y tafod glas yn glefyd hysbysadwy ac os oes amheuaeth ei fod wedi cyrraedd eich diadell rhaid rhoi gwybod i'r APHA ar 0300 303 8268.

Mae firws y tafod glas yn cael ei drosglwyddo gan wybed *Culicoides* spp, a chafodd ei ganfod am y tro cyntaf yn y DU yn 2007, er bod ffermwyr yn ymwybodol ohono cyn hynny am fod nifer gynyddol o achosion yn cael eu canfod ledled cyfandir Ewrop. Datganwyd yn swyddogol fod Prydain Fawr yn rhydd o'r firws unwaith eto ar y 5ed o Orffennaf 2011. Fe'i gwelir yn Ewrop o hyd.

Arwyddion clinigol mewn defaid

- Gwres uchel, syrthni a dim archwaeth bwyd
- Y llygaid a'r trwyn yn rhedeg
- Glafoerio am fod y tafod yn chwyddo ac am fod wlserau yn y geg
- Y pen a/neu'r gwddf, y gwefusau, y clustiau a bywyn y carn (coronary band) yn chwyddo
- Cloffni difrifol – y defaid sy'n dioddef yn stiff ac yn amharod i godi
- Y croen yn ymddangos yn fwy coch a gwaedlifau i mewn i'r croen neu oddi tano o bosibl
- Problemau resbiradol – anodd anadlu
- Dim ond weithiau y gwelir 'tafod glas'
- Erthyly

Gall y ganran farwolaeth mewn diadelloedd fod mor uchel â 70 y cant, ac mae'n bosibl y bydd y rhai sy'n goroesi yn colli graen ac y ceir colledion o ran cynhyrchiant, gan gynnwys anffrwythlondeb (yn enwedig yr ar anifeiliaid gwrywaidd)



Mae'r tafod glas yn glefyd hysbysadwy, sy'n golygu y dylech drafod â'ch milfeddyg a rhoi gwybod i'r APHA mor fuan â phosibl os ydych yn amau ei fod wedi cyrraedd eich diadell chi.

Cynhyrchwyd brechlynnau a bu'r rhain yn effeithiol dros ben yn dod â'r clefyd dan reolaeth a rheoli ei ymlediad, ond cafwyd colledion sylweddol ar rai ffermydd.

Dyma'r prif oblygiadau i ffermwyr defaid:

- Nid oes unrhyw gyfyngiadau pellach yn ymwneud â firws y tafod glas ar gyfer allforio defaid a gwartheg o Brydain Fawr.
- Mae risg y gallai'r clefyd ddod yn ôl wrth i wybed gael eu chwythu dros y Sianel gan ei fod i'w weld mewn rhai gwledydd Ewropeaidd o hyd.
- Mae'r rheolau mewnfario presennol yn ymwneud â da byw sy'n dod i mewn i Brydain Fawr o barthau â chyfyngiadau tafod glas ledled Ewrop yn parhau, ac mae ffermwyr yn cael eu hannog i feddl yn ofalus am fewnfario anifeiliaid o ardaloedd y mae'n hysbys bod firws y tafod glas ynddynt

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ynglŷn â'r tafod glas ac unrhyw gyfyngiadau mewnfario ac allforio, ewch i wefannau Llywodraeth Cymru, yr APHA a Defra.

Er y dylai ffermwyr ddal i fod ar eu gwyliadwriaeth rhag ofn i'r clefyd hwn ailymddangos yng Nghymru, nid oes raid i driniaethau na brechlynnau penodol fod yn rhan o gynllun iechyd y ddiadell.



Firws Schmallenberg

Canfuwyd firws Schmallenberg yng ngogledd Ewrop yn ystod Hydref 2011 yn dilyn clefyd mewn gwartheg a oedd yn cynnwys twymyn, dim archwaeth bwyd, colli graen ac ysgothi. O fis Rhagfyr 2011 cafodd ffetysau â nam arnynt eu geni i ddefaid, gwartheg a geifr yn y rhanbarthau lle'r oedd y clefyd. Canfuwyd yr achos cyntaf o Schmallenberg yn y DU yn gynnar yn 2012, cyn iddo ymledu ar draws y DU, gan achosi colledion difrifol mewn rhai diadelloedd.

Caiff y clefyd ei drosglwyddo gan wybed *Culicoides spp* - a chlodwyr eraill o bosibl - ac os yw anifail yn cael ei heintio yn ystod beichiogrwydd gall y ffetws gael ei eni gydag abnormaleddau difrifol, gan ddibynnu ar ba gyfnod o'r beichiogrwydd y digwyddodd yr heintiad. Mae'r abnormaleddau a welir yn sgil y ffetws hwn yn cynnwys: yr ymennydd heb ddatblygu'n iawn, y coesau a'r asgwrn cefn wedi'u hanffurfio ac abnormaleddau yn yr ên. Gall wŷyn gael eu geni'n fuan neu beidio â goroesi. Gall abnormaleddau arwain at wyna anodd a dylid ceisio cyngor milfeddygol i sicrhau diogelwch a lles y famog.

Mae'n bosibl y bydd brechlynnau ar gael ar gyfer gwartheg a defaid.

Mae hwn yn glefyd newydd ac nid ydym yn gwybod llawer amdano nac am ei oblygiadau i dda byw sy'n

cael eu ffermio. Bydd gan wefannau Llywodraeth Cymru a'r APHA y wybodaeth ddiweddaraf i gynhyrchwyr sy'n chwilio am wybodaeth bellach.

Dylai ffermydd gynllunio'n briodol yn eu cynlluniau iechyd diadell. Bydd angen iddynt gydweithredu'n agos â'r milfeddyg er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cael y cyngor diweddaraf a'u bod yn gwybod pa gamau i'w cymryd.



Canfuwyd yr achos cyntaf o Schmallenberg yn y DU yn gynnar yn 2012, cyn iddo ymledu ar draws y DU, gan achosi colledion difrifol mewn rhai diadelloedd.



Pam mae'n bwysig rhoi sylw i gloffni?

Rhaid peidio anghofio am ddefaid cloff!

Ni fydd defaid cloff yn helpu cynhyrchiant eich fferm, gan eu bod mewn gormod o boen i fridio. Nid yn unig y bydd cloffni yn effeithio are eich cyllid, ond hefyd ar statws lles eich diadell.

Mae cloffni yn bwnc pwysig iawn i'w drafod gyda'ch milfeddyg, mae cael cynllun i trafod a thrin cloffni yn hanfodol i'r ddiadell. Mae hefyd yn bwysig i allu wahaniaethu rhwng gwahanol achosion o gloffni.

Effaith cloffni ar eich diadell

- Hwrdd â ffrwythlondeb is
- Hyrddod yn methu gwasanaethu mamogiaid
- Canran wyna is
- Mwy o risg o toxaemia beichiogrwydd
- Pwysau geni ŵyn is
- Llai o laeth
- Llai o wlan
- Mwy o farwolaethau
- Cyfraddau twf is



Dafad yn penlinio - Llun gan Joseph Angell

Beth sy'n achosi cloffni?

Llid y traed a chlwy'r traed yw'r prif bethau sy'n achosi cloffni, a gallant effeithio ar sawl anifail mewn diadell. Mewn wŷn ifanc, mae Arthritis septig (joint ill) yn y cymalau yn fwy cyffredin, a achosir yn aml gan facteria yn yr amgylchedd.

Ond mae yna ffactorau pwysig eraill sy'n achosi cloffni ym mhob grŵp oedran. Felly, mae gwneud diagnosis cywir yn bwysig iawn. Dim ond wedyn mae modd dewis y driniaeth gywir a phenderfynu ar y camau cywir i'w cymryd i atal problemau yn y dyfodol.

Sut mae adnabod y gwahanol fathau o gloffni

- **Llid y traed** - mae'r croen yn yr hollt rhwng yr ewinedd yn llidus, yn llaith ac wedi chwyddo, ond mae'r corn yn dal yn gyfan. Gall hyn effeithio ar bob grŵp oedran, ac yn aml bydd llawer o anifeiliaid yn dioddef o fewn cyfnod byr.
- **Clwy'r traed** - mae hwn yn dechrau fel llid y traed rhwng yr ewinedd, ac yn ymledu i ymrannu'r corn ger y sawdl, gan ymledu wedyn ar hyd y wadn a hyd yn oed i fyny'r bilen mewn achosion difrifol. Mae yna ddrewdod nodweddiadol yn perthyn

i glwy'r traed, wrth i weddillion cawslyd tywyll gasglu o dan y corn rhydd. Mae'r bacteriwm *Dichelobacter nodosus* i'w gael yn llid y traed a chlwy'r traed, ac mae'n gysylltiedig fel arfer â *Fusobacterium necrophorum* mewn achosion difrifol o glwy'r traed. Mae clwy'r traed yn glefyd heintus, ac mae'r organebau'n gallu cael eu cario ar draed heintiedig ac ar borfa am hyd at 16 diwrnod. Am bob achos amlwg bydd sawl achos llai amlwg, ac ni fydd modd ei reoli'n effeithiol oni bai ei fod yn cael ei drin fel problem sy'n berthnasol i'r ddiadell gyfan.

- **Dermatitis carnol heintus mewn defaid (CODD)** - nid oes neb yn deall yn iawn beth yw achos y clefyd difrifol hwn, ond yn fwy na thebyg mae'n gysylltiedig â'r organebau sy'n achosi dermatitis carnol mewn gwartheg. Yn wahanol i glwy'r traed, sy'n dechrau yn y wadn ac yn ymledu tuag allan ac i fyny, mae'n dechrau â darn dolurus ym mywyn y carn ac yn ymledu i lawr yr ewin, gan fynd yn gyflym o dan y corn. Mewn achosion difrifol mae holl gwpan y corn yn dod yn rhydd ac yn datguddio ewinedd noeth. Gall hyn arwain at ddifrod parhaol i'r droed.



Clwy'r traed



CODD - Llun gan Joseph Angell



Carnau cregynnog - Llun gan Joseph Angell



Granwloma (blaen y carn)

- **Carnau cregynnog** - mae hwn yn gyflwr cyffredin lle mae pilen allanol yr ewin yn dod yn rhydd ac yn ffurfio poced sy'n llenwi â phridd. Nid yw'r ddafad yn dechrau cloffi nes i'r pridd gael ei wthio'n bell o dan bilen y carn. Bydd crawniad yn ffurfio ac yn y diwedd bydd hwnnw'n byrstio ar dop y carn. Bydd y ddafad yn gwella'n raddol wedyn, ond gall cloffni ailddigwydd os nad yw'r corn rhydd yn cael ei naddu i ffwrdd.
- **Crawniadau llinell wen (blaen y carn)** - bydd yr haint yn datblygu ar hyd llwybr o dan gorn y bilen gan achosi cloffni aciwt. Yn y diwedd, bydd y crawn yn byrstio ar dop y carn ac wedyn bydd y ddafad yn gwella'n raddol, er y bydd y corn yn rhydd ac wedi cracio o bosibl.
- **Crawniadau cymalau asgwrn y carn** - mae'r math difrifol hwn o heintiad yn fwy cyffredin mewn hyrddod trwm. Bydd yr anifail yn gloff iawn gydag ewin poenus a chwyddedig. Bydd y crawn yn byrstio mewn sawl man, yn aml o amgylch bywyn y carn, ond hefyd ar flaen y carn, gan gynnwys rhwng yr ewinedd. Bydd y cymal y tu mewn i'r carn yn cael ei niweidio'n barhaol a bydd yr anifail yn parhau'n gronig gloff. Bydd angen triniaeth filfeddygol; yn aml yr unig ateb yw torri'r ewin i ffwrdd.

- **Granwloma (Meinwe gordwf)** - yn aml bydd yn deillio o naddu a niweidio'r meinweoedd sensitif sy'n gallu bod yn agos at yr wyneb, yn enwedig ar flaen y droed. Gall ddeillio o achosion difrifol o glwy'r traed neu glwyfau tyllu hefyd. Mae tyfiant tebyg i fefus yn datblygu a gall hwn gael ei orchuddio â chorn rhydd, ond ni fydd byth yn gwella'n iawn a bydd yn gwaedu wrth gael ei gyffwrdd. Bydd angen sylw gan filfeddyg.

Mae mathau eraill o gloffni traed yn cynnwys pelenni pridd, clwyfau tyllu a chroen yn tyfu rhwng yr ewinedd gan achosi haint poenus.



Mae gwneud diagnosis cywir yn bwysig iawn. Dim ond wedyn mae modd dewis y driniaeth gywir a phenderfynu ar y camau cywir i'w cymryd i atal problemau cloffni yn y dyfodol.

Defaid cloff - triniaeth

Trin cloffni

Mae ar gloffni mewn defaid angen diagnosis cywir o'r hyn sy'n achosi'r broblem cyn penderfynu pa gamau i'w cymryd. Mae angen trin llid y traed, clwy'r traed a CODD fel problemau diadell gyfan, oherwydd mae'n annhebygol y bydd trin anifeiliaid cloff unigol yn caniatáu rheolaeth foddhaol oni wneir hynny'n gyflym ac yn rheolaidd (bob ychydig ddiwrnodau). Mae amryw o driniaethau ar gael a dylid dewis y rhain ar sail amgylchiadau penodol y ddiadell. Pan fo dafad unigol neu ddiadell yn gloff a ddim yn ymateb i'r triniaethau arferol, dylech ofyn i'ch milfeddyg am gyngor.

Defnyddio baddon traed

Dyma ffordd effeithiol o drin llid y traed ac achosion ysgafn o glwy'r traed ar gyfer diadell gyfan os oes adnoddau addas ar y fferm. Rhaid i'r defaid fod â thraed glân a sych cyn mynd i'r baddon a dylent sefyll ar wyneb sych a chaled am o leiaf 20 munud wedyn. Mae'n well defnyddio llociau sefyll, sy'n gallu dal nifer o ddefaid, na gadael i ddefaid gerdded trwy faddonau; mae'n sicrhau fod y traed i gyd yn cael eu trin ac yn caniatáu i ddefaid gael y driniaeth am yr amser gofynnol.

Bydd rhoi defaid mewn llociau trafod llaith neu fudr yn peri i glwy'r traed ymledu.

Mae sawl cemegyn gwahanol ar gael. Y rhai mwyaf adnabyddus yw:

- **Sylffad sinc** - (10%). Mae angen i ddefaid sefyll yn hwn am oddeutu 5 munud, ambell waith yn hirach (darllenwch y cyfarwyddiadau!).
- **Fformalin** - (mae 2-3% yn ddigonol fel arfer, byth yn gryfach na 5%). Bydd defaid yn cerdded trwy'r baddon, ond mae'n annymunol a phoenus i'w ddefnyddio; hefyd, gall galedu'r corn yn ormodol os yw'n cael ei ddefnyddio'n rhy aml. Fodd bynnag, mae'n bosibl mai fformalin gwan (2%) yw'r ffordd fwyaf ymarferol o drin llid y traed. Dylai baddonau traed â fformalin fod yn ffres bob tro oherwydd byddant yn dirywio wrth fynd yn fwdlyd.

Mae triniaethau eraill ar gyfer cloffni yn cynnwys:

- **Chwistrellau gwrthfotig** - Yn effeithiol rhag llid y traed ac achosion ysgafn o glwy'r traed, yn enwedig ar gyfer defaid unigol neu niferoedd bychain. Peidiwch byth â'u defnyddio gyda baddon traed oherwydd bydd y driniaeth yn cael ei golchi i ffwrdd, gan olygu gwastraff arian!
- **Pigiadau gwrthfotig** - Gall y rhain fod yn effeithiol ar gyfer clwy'r traed neu CODD ac ar gyfer mamogiaid yn eu beichiogrwydd hwyr oherwydd

nid ydynt yn golygu llawer o drin a thrafod ar gyfer yr anifail. Efallai y bydd eu hangen hefyd ar gyfer crawniadau ar y traed pan nad yw'n hawdd gollwng y crawn. Mynnwch air â'r milfeddyg am gyngor ynglŷn â defnyddio gwrthfotigau.

Defaid cloff - atal


Cofiwch, os nad yw'n amlwg beth sy'n achosi cloffni, os nad yw'r triniaethau arferol yn gweithio neu os yw'r defaid yn ddifrifol gloff, dylech ofyn am gymorth gan y milfeddyg er lles yr anifeiliaid.

Atal cloffni

Ni fydd byth yn bosibl atal cloffni'n gyfan gwbl, ond dylid ceisio cael cyn lleied â phosibl o achosion o lid y traed, clwy'r traed a CODD, os ydynt yn eich diadell yn barod. Bydd cadw'r rhain dan reolaeth a pheidio â chaniatáu i achosion difrifol neu gronig ddatblygu (clwy'r traed a CODD), yn golygu llai o amser o lawer yn trin anifeiliaid unigol.

Y ffyrdd gorau o atal yw:

- **Defnyddio baddon traed** – ar ôl hel y defaid a'u symud i borfa newydd, a hefyd cyn rhoi anifeiliaid dan do ac yn ystod y cyfnod hwnnw, i'w diogelu rhag llid y traed ac i atal clwy'r traed rhag ymledu. Ond rhaid bod y cyfleusterau'n addas.



System ymdrochi traed

- **Brechu** - yn benodol rhag clwy'r traed. Gall helpu i'w reoli, ond mae angen i hyn fod yn rhan o gynllun gofal traed cyffredinol. Nid yw brechu'n diogelu am gyfnod hir iawn, ac felly mae angen bod yn ofalus o ran amseru. Gofynnwch i'ch milfeddyg am gyngor.
- **Cadw popeth yn lân** - bydd llociau sych gyda digon o wellt a manau wedi'u draenio'n dda lle mae defaid yn ymgynnull o gwmpas cafnau bwyd neu ddŵr yn helpu i atal clwy'r traed rhag lledu a hefyd yn helpu i atal heintiadau'r cymalau mewn ŵyn ifanc.
- **Difa defaid sydd wedi'u heintio'n gronig** - bydd defaid eraill yn cael eu heintio trwy'r amser gan yr rhain.
- **Naddu traed** - nid yw naddu traed yn rheolaidd yn cael ei argymell bellach. Peidiwch â naddu'r carnau sydd wedi gordyfu'n ofnadwy oni bai eu bod yn amharu ar gerddediad yr anifail. Cymerwch ofal rhag peri i'r droed waedu. Gwnewch yn siŵr bod yr heintiad wedi gwella yn gyntaf, ac os nad yw'r carnau'n treulio wrth i'r ddafad ailddechrau rhoi ei phwysau ar y droed honno, efallai y bydd yn werth gwneud ychydig o naddu gofalus. Mae astudiaethau wedi dangos fod defaid cloff sy'n cael dim ond pigiad gwrthfotig yn gwella'n well na'r rhai sy'n cael pigiad gwrthfotig a naddu eu traed.



Naddu traed - Llundun gan Joseph Angell

Mae modd rheoli clwy'r traed ym mhob diadell a'i ddileu o ddiadelloedd caeedig, ond mae'n hawdd iawn ailgyflwyno'r clefyd trwy esgeulustod neu fod yn ddfeddwl. Mae yna ddeg math o'r bacteriw *B. nodosus* ar ffermydd yn y DU, ac mae rhai'n fwy ffyrnig nag eraill (ac yn achosi clefydau mwy difrifol). Felly mae'n bwysig peidio â chyflwyno mathau newydd i'ch diadell.

Dylai'r holl ddefaid sy'n cyrraedd y fferm gael eu cadw ar wahân i'r ddiadell breswyl nes iddynt gael eu harchwilio, eu trin yn ôl y gofyn, a'u harchwilio'r eildro, cyn cymysgu â'i gilydd.

Beth am ddilyn y cynllun 5 pwynt canlynol ar gyfer rheoli cloffni mewn defaid?

Mae yna offeryn defnyddiol i helpu rheoli cloffni, sydd yn cael ei adnabod fel y 'Cynllun Pum Pwynt'. Gall yr offeryn hwn eich helpu i weld sut rydych chi'n rheoli cloffni nawr a'ch helpu chi i weld lle mae angen i chi wella. Wrth greu eich cynllun iechyd- gofynnwch i'ch milfeddyg fynd trwy'r Cynllun gyda chi.

Os nad yw CODD ar eich fferm, does dim mo'i angen arnoch chi.

Camau allweddol ar gyfer rheoli cloffni

Peidiwch ag aros nes bod cloffni'n broblem.

Defnyddiwch gwarantïn i'w gadw allan a chymerwch gamau rhagweithiol i'w atal.

Peidiwch â phrynu anifeiliaid problemus a allai heintio gweddill eich diadell.

Wrth ddefnyddio baddon traed, rhaid gwneud yn siŵr bod cryfder y cemegyn priodol yn iawn.

Mae diagnosis cywir o'r achos yn hanfodol. Dylech drin clwy'r traed fel problem heintus mewn diadell.

Os oes amheuaeth ynglŷn â'r achos, gofynnwch i'r milfeddyg am gyngor.

Dylech ddifa defaid â heintiad cronig.

Erthylu mewn defaid

Mae erthylu'n achosi colledion o £100 y famog o leiaf.

Y tri pheth mwyaf cyffredin sy'n achosi erthyliau mewn mamogiaid yng Nghymru yw erthylu ensöotig (EAE), tocsoplasmosis a'r erthyliau a achosir gan campylobacter.

Mae EAE a tocsoplasma yn beryglus i ferched beichiog.

Pam mae hwn yn fater pwysig?

Bob blwyddyn, mae erthylu mewn defaid yn achosi colledion ariannol enfawr i ffermwyr unigol ac i economi defaid Cymru. Mae'r rhan fwyaf o erthyliau'n digwydd yng nghyfnodau olaf beichiogrwydd, ac felly mae'r golled yn cynnwys nid yn unig gwerth posibl yr ŵyn ond hefyd y gost o gynnal mamogiaid anghynhyrchiol trwy gyfnod sy'n cynnwys llawer o fewnbynnau. Gwnaed sawl amcangyfrif o wir gost erthylu ac mae'r rhan fwyaf o astudiaethau'n awgrymu isafswm o £100 y famog.

Mae yna sawl rheswm pam mae mamogiaid yn erthylu - rhai'n heintus a rhai heb fod yn heintus. Ond mae tri phrif achos sy'n gyfrifol am fwy na 75% o'r holl achosion sy'n cael diagnosis. Os bydd mamogiaid yn dechrau erthylu, mae'n hanfodol cael diagnosis cywir a chyflym o'r achos. Mae hyn yn golygu cyflwyno'r ffetws marw a'r brych i labordy. Heb y ddau, mae diagnosis yn llai tebygol. Oni cheir rheswm yn sgil hyn, neu hyd yn oed os rhoddir rheswm a bod yr erthyliau'n parhau, mae'n bwysig ailgyflwyno deunydd oherwydd efallai fod mwy nag un cyfrwng yn bresennol yn y ddiadell. Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol wrth benderfynu ar driniaethau a strategaethau rheoli ac atal.

Beth bynnag sydd wrth wraidd yr erthyliau, mae'n hanfodol ymgynghori â'ch milfeddyg ynglŷn â'r ffordd orau o drin ac atal yn y dyfodol.



Erthylu Ensöotig (EAE)

Erthylu ensöotig mamogiaid (EAE) yw'r prif reswm dros erthyliaid yng Nghymru. Dyma sydd wrth wraidd oddeutu hanner yr holl achosion sy'n cael diagnosis. Yr organeb sy'n gyfrifol yw *Chlamydomphila abortus*. Mae'r gylchred bywyd yn gymhleth, gan olygu ei bod yn anodd ei rheoli.

Caiff mamogiaid sy'n agored i'r haint, naill ai rhai beichiog neu'r rhai sydd newydd wyna, eu heintio adeg wyna. Nid yw'r heintiad yn achosi erthyliaid y flwyddyn honno (heblaw am rai achosion eithriadol lle caiff y famog ei heintio cyn 120 diwrnod o feichiogrwydd). Bydd yr organeb yn aros yn gudd yn y famog. Ar ôl tua 120 o ddiwrnodau o'r beichiogrwydd nesaf, bydd yr organeb yn cynhyrchu heintiad aciwt o'r brych gan achosi erthyliaid. Bydd y brych a diferlifoedd y famog yn heintus iawn.

Bydd erthyliaid EAE yn digwydd yn nhair wythnos olaf y beichiogrwydd a chynhyrchion erthyliaid y ffynhonnell yr heintiad. Ond nid yw'r stori mor syml â hynny. Yn eu beichiogrwydd nesaf, bydd mamogiaid sydd wedi erthylu yn cynhyrchu ŵyn byw a hyfyw, ond gall yr heintiad fod yn bresennol o hyd yn y brych a'r diferlifoedd. Dangoswyd y bydd ŵyn benyw yn erthylu yn eu beichiogrwydd cyntaf os ydynt yn dod o ddiadell sydd wedi ei heintio'n ddrwg. Mae hyrddod yn annhebygol o fod â rhan fawr i'w chwarae o ran ymlediad EAE.

Gall EAE gyrraedd diadell mewn sawl ffordd. Y ffordd fwyaf cyffredin yw trwy brynu mamogiaid neu ŵyn benyw wedi'u heintio'n gudd. Bydd y rhain yn erthylu y tro nesaf y byddant yn wyna. Y ffordd gyffredin arall y bydd heintiad yn cyrraedd yw trwy brynu mamogiaid sydd wedi erthylu ac sy'n cael eu gwerthu fel mamogiaid bridio. Bydd y rhain yn rhoi genedigaeth i ŵyn normal a hyfyw, ond am eu bod wedi eu heintio, byddant yn cyflwyno'r haint i'r ddiadell ac felly bydd erthyliaidau'n digwydd yn yr ail flwyddyn ar ôl eu prynu. Ffordd arall o heintio yw i greaduriaid ysglyfaethus (brain a llwynogod) gario brych heintiedig o fferm cymydog.

Gall colledion cychwynnol fod yn drychinebus, gyda chyfradd erthylu o hyd at 30% mewn diadelloedd newydd eu heintio. Bydd diadelloedd sydd wedi eu heintio'n gronig yn colli rhwng 5 a 12 y cant bob blwyddyn.

Gall triniaeth a rheolaeth fod yn effeithiol, ond dylech drafod a chynllunio hyn gyda'ch milfeddyg. Os ceir achosion, gall triniaeth wrthfotig â dosau o ocsitetrasyclin leihau'r gyfradd erthylu, ond ni fydd hyn yn lleihau nac yn atal gollyngiad C. abortus naill ai yn y brych neu mewn diferlifoedd. All triniaeth

o'r fath ddim dad-wneud niwed i'r brych, ac yn sgil hyn bydd ŵyn yn cael eu cario am gyfnod hwy ond byddant yn wan adeg eu geni, gan arwain at fwy o farwolaethau. Mae llawer o graffu ar ddefnydd o wrthfotigau ym myd amaeth ar hyn o bryd, ac ni ellir cyfiawnhau rhoi pigiad i grŵp cyfan oni bai mewn achosion sy'n cael eu hystyried yn argyfwng. Ar ôl hynny, mae'n rhaid brechu.

Rheoli EAE

Rheolir EAE trwy ddefnyddio brechlynnau. Mae astudiaethau wedi dangos bod defnyddio brechlyn mewn diadelloedd sydd eisoes wedi eu heintio yn lleihau colledion i tua 1%, a gellir dileu'r heintiad yn gyfan gwbl dros gyfnod o flynyddoedd.

Nid yw'n dderbyniol nac yn synhwyrol defnyddio pigiad gwrthfotig fel strategaeth ataliol; rhaid cadw gwrthfotigau ar gyfer trin achosion.

Yn unol â phob rheswm dros erthylu sy'n deillio o haint, rhaid cadw'r mamogiaid ar wahân a chael gwared â'r hyn a erthylwyd, ynghyd â'r gwellt, a'u dinistrio. Dylid gwneud yn siŵr bod mamogiaid sy'n rhoi genedigaeth i ŵyn marw/gwan ar ôl y cyfnod llawn yn cael eu cadw ar wahân hefyd. Ni ddylid cadw ŵyn mabwysiedig a roddir i'r mamogiaid ar gyfer bridio yn y dyfodol.

Mae cynlluniau achredu ar gael ar gyfer erthylu ensöotig a bydd rhai bridwyr yn manteisio ar hyn er mwyn ychwanegu gwerth at y stoc bridio a werthir ganddynt. Mae hyn yn rhoi hyder i brynwyr eu bod yn prynu anifeiliaid glân. Ac i gynhyrchwyr a allai fod wedi cael problemau gyda'r clefyd, gallai strategaeth o'r fath fod yn rhan bwysig o fioddiogelwch y ddiadell.



Oen wedi'i erthylu - Llun gan APHA

Tocsoplasmosis

Yr ail brif beth sy'n achosi erthyliadau mewn diadelloedd yng Nghymru yw tocsoplasmosis. Yn wahanol i EAE, mae tocsoplasmosis yn glefyd amgylcheddol. Cathod yw'r prif anifeiliaid llelyol. Bydd cathod ifanc yn gollwng hyd at filiwn o oocystau (wyau) ym mhob gram o faw, ond mae cyn lleied â 200 o wyau yn ddigon i heintio dafad. Daw'r heintiad o dir pori neu fwydydd sydd wedi eu heintio â baw cathod. Mewn diadelloedd mynydd a thir uchel, bydd hyn yn digwydd yn aml pan fydd ffermwyr yn dechrau rhoi porthiant atodol yn y gaeaf a chyn wyna.

Mae pedwar cyfnod amlwg o golli ŵyn yn gysylltiedig â heintiad tocsoplasma.

Bydd heintio cyn diwrnod 70 o'r beichiogrwydd yn arwain at farwolaeth ac adamsugniad y ffoetws gan adael y famog yn wag. Bydd heintio rhwng diwrnod 70 a diwrnod 110 yn peri i'r ffetws farw a mymio. Os oes gefeiliaid, gall un oroesi er i'r llall farw. O ddiwrnod 110 ymlaen, bydd heintiad yn achosi erthyliad ŵyn wedi eu cario ymron i'w cyfnod llawn. Mewn rhai diadelloedd, bydd heintiad hwyr iawn yn arwain at eni ŵyn gwanlyd sydd, er gwaethaf pob sylw, yn marw yn dri neu bedwar diwrnod oed.

Nid oes unrhyw driniaeth bosibl os ceir heintiad. Ond unwaith y bydd mamog wedi ei heintio, bydd ganddi ymwrthedd oes a bydd yn rhoi genedigaeth i ŵyn hyfyw yn y dyfodol.

Rheoli Tocsoplasmosis

Rheolir tocsoplasmosis trwy frechu. Mae brechlyn byw ar gael.

Cofiwch fod gan ddefaid sydd wedi eu heintio ymwrthedd oes, ac felly er mwyn lleihau'r gost, mewn rhai diadelloedd dim ond yr anifeiliaid sy'n cael eu prynu i mewn fydd yn cael eu brechu, wrth iddynt ymuno â'r ddiadell. Fel hyn, caiff y ddiadell gyfan ei brechu o dipyn i beth, a gellir gwasgaru'r costau dros gyfnod.

Mae modd defnyddio profion gwaed i adnabod defaid sydd wedi bod mewn cysylltiad â tocsoplasmosis a'r rhai sydd wedi erthyllu oherwydd EAE.



Mae achosion o campylobacteriosis yn ysbeidiol ond gallant fod yn dorcalonnus, gyda cholledion o 30% i 40%.

Campylobacteriosis

Dyma'r trydydd peth mwyaf cyffredin sy'n achosi erthyliadau. Mae'n cael ei achosi gan ddau facteriwm sy'n perthyn yn agos, *Campylobacter fetus sub-species fetus* and *Campylobacter jejuni*. Bydd erthyliadau fel arfer yn digwydd yn y chwe wythnos olaf neu ambell waith caiff ŵyn gwan eu geni. Yn wahanol i EAE neu tocsoplasmosis, nid oes niwed nodweddiadol yn y brych.

Mae achosion o campylobacteriosis yn ysbeidiol ond gallant fod yn dorcalonnus, gyda cholledion o 30% i 40%.

Mae cafnau bwydo sy'n cael eu halogi gan faw adar yn ffynhonnell gydnabyddedig, ond gall mamogiaid sy'n gludwyr heintio'r diadell hefyd. Mae'n ymddangos fod gor-stocio mamogiaid, boed y tu allan neu dan do, yn gwneud achosion yn fwy difrifol.

Bydd mamogiaid beichiog sydd wedi eu heintio yn ymwrthol am oes, a hyn sy'n esbonio natur ysbeidiol yr achosion. Nid oes unrhyw driniaeth effeithiol ar gael.

Mae hylendid da adeg wyna, a symud unrhyw famog sydd wedi erthyllu i loc unigol neu loc anifeiliaid claf yn syth, yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd yr haint yn lledu i'r mamogiaid eraill, boed y rheini y tu allan neu dan do.

Camau allweddol ar gyfer rheoli erthyllu

Arddelwch hylendid da adeg wyna a symudwch unrhyw famog sydd wedi erthyllu yn syth er mwyn lleihau'r perygl y bydd haint yn lledu

Mewn achosion o erthyllu, mae'n hollbwysig cael diagnosis cyflym gan labordy ac efallai y bydd angen mwy nag un sampl i gael diagnosis cywir

Mae modd rheoli EAE a tocsoplasmosis yn dda trwy frechu

Ni ddylech ddefnyddio gwrthfotigau oni bai fod yna achosion o EAE, a byth fel triniaeth ataliol flynyddol

Mynnwch air â'ch milfeddyg ynglŷn â'r ffordd orau a mwyaf effeithiol o atal erthyliadau yn y dyfodol

Byddwch yn ofalus wrth brynu anifeiliaid i'w cadw, rhag ofn eu bod wedi'u heintio'n gudd ag EAE

Mae EAE a tocsoplasma yn gallu heintio pobl ac ni ddylai merched beichiog ymwneud â defaid adeg wyna na chyffwrdd ag oferôls budr heintiedig

Crynodeb

Trwy fod yn ragweithiol gyda'ch cynllun iechyd, a diweddarw'ch cynllun yn flynyddol gyda'ch milfeddyg, gellir rheoli ac osgoi y canlynol:

- Mae brechu rhag clefydau clostridiol yn hanfodol
Dylid gwneud asesiadau risg o glefydau eraill
- Mae angen asesiad arbennig ar gyfer orff
- Dylid dilyn canllawiau SCOPS i reoli parasitiaid mewn defaid
- Mae llyngyr yr iau yn achosi colledion economaidd sylweddol ac mae angen strategaeth fferm unigol i'w atal
- Mae trefniadau rheoli da yn gallu lleihau achosion o coccidiosis
- Os cewch hyd i ectoparasitiaid parhaol ar un anifail, dylid ystyried bod y grŵp cyfan wedi ei heintio a dylid trin yr holl anifeiliaid yn y grŵp ar yr un pryd
- Mae modd rheoli clefydau metabolig â maeth da, sgorio cyflwr yn rheolaidd a rheoli'r borfa adeg troi allan
- Dylid defnyddio polisi cwarantîn ar gyfer anifeiliaid sy'n cyrraedd y fferm
- Pan mae'n dod i drafod cloffni, ystyriwch y Cynllun 5 pwynt i helpu lleuhau achosion.



Rhagor o wybodaeth

Cysylltwch â thîm Datblygu Diwydiant HCC

Ffôn 01970 625050

E-bost info@hybucig.cymru

Mae rhagor o wybodaeth am y llyfryn hwn ac am waith HCC ar gael yn

<https://meatpromotion.wales/cy>